

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 342 - 60c
Ebrill 2016


Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Colofn
Cymeriadau
Bro newydd**



Tudalen 9

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 27

**Ymlaen
i Fflint
ym mis Mai**



Tudalen 2, 16, 29, 30

Anrhydeddau Eisteddfodol



Elin Williams, Y Garn, Cwmann sydd wedi ennill Tlws John a Ceridwen eleni - gwobr sy'n cael ei rhoi yn flynyddol i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuencid Cymru.

Cafodd wybod ei bod wedi ennill y wobwr mewn noson syrpreis wedi ei threfnu gan yr Urdd a chwmmi teledu Avanti. Roedd Elin dan yr argraff ei bod yn rhoi gwersi adrodd i'r digrifwr Gary Slaymaker ond yng nghanol y wers, daeth y gyflwynwraig Heledd Cynwal i mewn a rhoi gwybod iddi mai hi sydd wedi ennill Tlws John a Ceridwen eleni.

Meirion Siôn Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog, Llanbedr Pont Steffan enillodd Gadair i rai o 21 oed yn Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen ar ddydd Mercher, Mawrth 30ain. Ysgrifennodd Gerdd ar y thema 'Yfory'. Mae Meirion yn ddisgybl Blwyddyn 12 yn Ysgol Bro Pedr. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Mrs Magw Hughes, Pantdderwen, Llanwnnen.





**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar

07557 448234

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



Grŵp Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl. 7, 8 a 9 – Ysgol Bro Pedr 1af



Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo
Bl. 10 a dan 19 oed – Rhian Harries,
Ysgol Bro Pedr 3ydd



Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl.
7, 8 a 9 – Samantha Weller-Pryce,
Ysgol Bro Pedr 2il



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aldrydarodd
@Clonc360 neges
@EDGarethMorgans
Mawrth 5

Noson dda a chwmni
da heno yng Ngorsgoch
gyda Toni Carrol
#NeuaddYrHafod

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aldrydarodd
@Clonc360 neges
@CarmsCouncil
Mawrth 7

Mae plant wrth eu
boddau gan fod Ysgol
Carreg Hirfaen wedi
cael adeilad newydd
£5.7miliwn

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mawrth 7

Llund lle o wherthin yn
@TheatrFelinfach heno
gyda @CFflllanllwni @
DCYFC a
@CFfllPontsian.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aldrydarodd
@Clonc360 neges
@beti_fach
Mawrth 11

@CeredigionActif
- Sbort a Sbri yng
nghystadleuaeth
Chwaraeon Cymunedau!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aldrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterTownRFC
Mawrth 20

Tîm Llambod U13 ar
ôl ennill Semi Final y
plate heddi vs New
Dock Stars! Da iawn!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aldrydarodd
@Clonc360 neges
@UrddCeredigion
Mawrth 24

Llund y lle yn joio yn
Sioe Ffasiwn criw
Patagonia 2016 -
noson hwyliog iawn!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrein/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Hiwmor

Mae hiwmor yn beth iach, a diolch amdano – dyma'n aml iawn yw'r moddion gorau!

Mae rhywun yn tueddu i feddwl am gefn gwlad fel magwrfa hiwmor, ac mae sawl peth yn help i ni allu credu hynny. Fe sylwch chi yn y gyfres 'Ti'n Jocan' o wasg y Lolfa taw cymeriadau gwledig, yn aml iawn o'r gorllewin, yw awdur sawl llyfr – Lyn Ebenezer, Dai Jones Llanilar, Emyr Llywelyn, Ifan Tregaron, Dewi Pws, Eirwyn Pontshân, Goronwy Evans, Peter Hughes Griffiths, ac yn y blaen.

Ac yn ddiweddar, cawsom fel ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y papur Clonc wledd o chwerthin gan ddramâu Clybiau Ffermwyr Ifanc – mudiad sy'n fagwrfa i gymaint o dalent yng Nghymru. Llongyfarchiadau i'r clybiau am eu gwaith yn paratoi a llwyfannu cymaint o ddramâu gwahanol i'n diddanu.

Ond un peth sydd wedi fy nharo yn ddiweddar yw bod hiwmor yn gallu bod yn rhywbeth personol iawn. Dyw pawb ddim yn gwirioni'r un fath. Mae jôc dda i fi o bosib yn jôc wael i rywun arall.

Mae rhai yn licio stand-up, eraill yn licio comedi slapstic a ffars. Mae rhai yn dwlu ar hiwmor tŷ bach ac yn gweld unrhyw gyfeiriad at weithredoedd tŷ bach yn eithriadol o ddoniol. Mae rhai wedyn yn licio comedi mwy cynnil, eraill yn licio comedi du a hiwmor tywyll.

Ac mae'r amrywiaeth hwn i'w weld ar S4C. Petawn i'n enwi rhai o'n cyfresi comedi, mae'n siŵr eich bod chi, fel finnau, yn ymateb yn wahanol iddyn nhw. Ambell un yn ffefryn, eraill yn rwtsh llwyr yn ôl ein tastersonol ni'n hunain ... Teulu'r Mans, Hafod Haidd, I-ha Sheela, Dim Byd, Cnex, Torri Gwynt, Nyth Cawen, Porc Peis Bach, Gwlad yr Astra Gwyn, C'mon Midffild, ac mae'n siŵr bod llawer mwy.

Mae'n dda nad ydyn ni gyd yr un peth! Daliwch i chwerthin!

Cloncen

Ras yr Iaith 2016

Newyddion Cyffrous a Dyddiadau i'ch dyddiadur

Annwyl ddarlennwyr,

Yn 2014 fe gynhaliwyd Ras yr Iaith am y tro cyntaf, sef ras hwyl, heb fod yn gystadleuol dros y Gymraeg, gan ymweld â 9 tref (rhwng Machynlleth ac Aberteifi), a denu dros 1000 o gyfranogwyr a chodi dros £4000 at achosion lleol i gefnogi'r iaith.

Rydym yn falch i'ch hysbysu bod y Ras yn dychwelyd ar 6, 7 a 8 o Orffennaf eleni, a thrwy gydweithio'n agos â mudiadau lleol, gan gynnwys eich Menter leol, Menter Iaith Cered, rydym yn bwriadu ehangu a datblygu'r Ras yn sylweddol, gan redeg trwy o leiaf 20 lleoliad dros 3 diwrnod, rhwng Bangor a Llandeilo.

Y bwriad yw i'r Ras ymweld â'ch ardal ar y 7 o Orffennaf, ac ysgrifennwn felly i wahodd unigolion i ymuno â ni trwy gymryd rhan yn y Ras er mwyn dathlu'r Gymraeg, Cymreictod a chymuned, a chael llawer o hwyl a sbri wrth wneud.

Gyda'r prif nod o ddathlu'r iaith a chodi balchder ynddi, mae'r Ras hefyd yn codi arian i hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol trwy wahodd grwpiau, clybiau ac Ysgolion lleol i noddi cilomedr. Yn 2014 fe ddosbarthwyd grantiau gwerth dros £4000 i gefnogi achosion lleol wedi'r Ras. Rydym yn bwriadu codi hyd yn oed mwy o arian trwy ymestyn a datblygu'r Ras, ac er mwyn cadw'r Ras mor agored â phosib fe fydd y gost i noddi pob cilomedr yn aros yr un peth â 2014, sef £50. Am hyn byddwch yn gallu rhedeg km (neu fwy) a does dim uchafswm ar nifer yr unigolion gall rhedeg.

Rydym wir yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni eleni, a rhannu'r profiad gwyb o redeg i ddathlu ein hiaith.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Ras ar y wefan www.rasyriaith.cymru. Ceir gwybodaeth hefyd am y llwybr a mesurau diogelwch y Ras isod. Croeso mawr i chi gysylltu â'r Fenter am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, ac edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi.

Yn gywir,
Lynesey Thomas
Rheolwr Cered
cered@ceredigion.gov.uk
01545 572356

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035
✉mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



EBRILL

- 9 Diwrnod yn neuadd Gorsgoch i sganio hen luniau i'w rhoi ar gof a chadw mewn ffordd ddigidol o 10y.b. tan 3y.p. Mae croeso i unrhyw un i ddod â lluniau ar y dydd. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog.
- 10 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p. ac Oedolion am 5.00y.h.
- 15 Bingo gan C.F.F.I Llanllwni yn Talardd, Llanllwni i ddechrau am 8.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 16 TRIO, sef grŵp lleisiol o Ogledd Cymru – Emyr Wyn Gibson, Bedwyr Gwyn Parri a Steffan Lloyd Owen a PIANTEL – dau offerynnwr adnabyddus a phoblogaidd, sef Annette Bryn Parri (piano) a Dylan Cernyw (telyn) yn Theatr Felinfach.
- 16 Noson yng nghwmni Tudur Wyn, Clive Edwards a'r ddeuawd newydd o'r Gogledd Dafydd a Lisa yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Mynediad drwy docyn yn unig £10. Holl elw'r noson tuag at Calonnau Cymru - Elusen y Galon dros Gymru a Yr Angor - Papur Bro Ardal Aberystwyth. Tocynnau ar gael drwy ffonio'r Gwesty ar 01970 636333 neu oddi wrth Megan a'r 01970 612768.
- 17 Sêl Cist Car ar Iard Ysgol Cwrtnewydd rhwng 10 a 2. Tâl o £5 am stondin. Elw tuag at Parc Cwrt Park.
- 17 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Ciliau. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p. ac Oedolion am 5.00y.h.
- 22 Noson Caws a Gwin a Chlonc yn Nhafarn Glanyrafon, Talgarreg am 7:30y.h. Bydd Dylan Iorwerth yn cadeirio panel o siaradwyr – Emyr Llewelyn, Karen Owen a Tudur Dylan Jones. Mynediad drwy docyn £5 ar gael o Dafarn Glanyrafon neu drwy ebostio ymofynnydd@outlook.com Bydd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng BAWSO ac Ymchwil Parkinsons. Croeso cynnes i bawb.
- 22 Dawns Dewis Swyddogion Carnifal Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 6.00yh. Byddwn yn dewis Brenhines y Carnifal, morwynion, tywysog a brenhines y tylwyth teg.
- 24 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Ciliau Aeron. Plant ac Ieuenctid am 2.00y.p. ac Oedolion am 5.30y.h.
- 24 Taith Dros Fwyd i godi arian tuag at elusen Aren Cymru. Mi fydd y daith yn dechrau am 10.00yb i ddechrau o Dafarn Cefnhafod, Gorsgoch.
- 25 Derbyn Newyddion CLONC.
- 27 Mary Thomas, Ffosffald yn siarad am hanes Eglwys a WI Llanwenog am 8.00y.h. yn Cefnhafod, Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog. Croeso i bawb.

MAI

- 2 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd.
- 2 Gŵyl Mai a'r gae'r Dref Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams 01558 650309.
- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 6 Arddangosfa Dartiau yn y Clwb Rygbi. Drysau ar agor 6.30 yh, i ddechrau am 8yh.
- 6 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Goffa Tregaron.
- 7 Cystadleuaeth agored dartiau yn Llain y Castell. Drysau'n agor 10.30yb, i ddechrau am 12.30yp
- 7 Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno MELA gan Linda Gittins, Derec Williams a Penri Roberts
- 7 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg. Cystadleuaeth Newydd Côr. Gwobrau hael. Emyr 01545 590383 neu Enfys 01545 590295 am fanylion pellach.
- 8 Rihysal Bedyddwyr cylch Caio a Llambod yn Noddfa am 2.00y.p.
- 10 **Pwyllgor Blynnyddol CLONC.**
- 13 Gwin a Chân 'da Cardi-Gân yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch am 8.00y.h. Gwestai: Côr Meibion Caerfyrddin. Elw tuag at ei elusen sef Beiciau Gwaed. Dewch yn llw.
- 13 Dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder - Noson Goffi am 7.00y.h. yn Festri Aberduar. Agorir gan Mrs Pam Burke.
- 15 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambod ym Methel Cwm Pedol am 4.00y.p.
- 22 Taith Tractorau Drefach ger Llanybydder ar gaeau Maesyronnen am 10.30y.b. Elw tuag at Multiple Sclerosis a Chlwb Cledlyn. Am fanylion pellach cysyllter â Peter 01570 434342 neu Jeff ar 01570 481121.
- 23 Derbyn Newyddion CLONC.
- 28 Carnifal Cwmann.
- 29 'It's a Knockout' am 1yp yng nghae rygbi Llanybydder. £10 am dîm o 4, dros 16 oed, £30 a tarian i'r enillwyr.
- 30 Arwerthiant Cist Car Blynnyddol Sefydliad y Merched Pumsaint ar Gae'r Dref. Cynhelir yn y Neuadd os bydd y tywydd yn anffafriol. Ar agor i'r gwerthwyr am 8yb ac i'r cyhoedd am 10yb.

MEHEFIN

- 1 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 4 Rali C.F.F.I. Ceredigion yn Nhalybont.
- 10 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Noson Gwis, Clwb Rygbi Aberaeron.
- 19 Gymanfa Ganu am 6.30yh yng nghapel Aberduar, Llanybydder.
- 20 Helfa drysor car am 6.00yh i ddechrau yn y clwb rygbi Llanybydder. £5 y car.
- 21 Bingo 8yh yn y clwb Rygbi Llanybydder.
- 22 Helfa drysor cerdded yn gadael Tanygraig, Llanybydder am 6.30yh.
- 24 Cwis yn Llew Du, Llanybydder am 7yh. £10 am dimoedd o 4.
- 25 Carnifal blynnyddol Llanybydder yng nghae rygbi Llanybydder i ddechrau am 1.00yp. Thema gwisgo lan yw Hollywood.
- 25 Cyngredd blynnyddol Côr Meibion Cwmann a'r Cylch gyda Catrin Aur a Phlant Ysgol Carreg Hirfaen yn neuadd Sant Iago Cwmann. Elw tuag at Apêl Ambiwylans Awyr Cymru.
- 26 Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llanybydder am 7.30y.h. Artistiaid: Côr y Gen o Aberystwyth. Elw tuag at y Capel. Tocyn £5.
- 27 Derbyn Newyddion CLONC.

GORFFENNAF

- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 9 Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd.

AWST

- 13 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 20 Sioe Gorsgoch.
- 27-29 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Miss Carys Davies o Goleg Ceredigion i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae'n dod am ddeuddydd bob wythnos tan yr haf fel rhan o'i gwaith coleg. Mae wedi setlo yn dda ac yn gymorth mawr yn y dosbarth.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Ein beirniad oedd Mr. John Jones, Talardd a diolch iddo am roi ei amser i ddod atom. Bu pob plentyn yn cymeryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau- llefaru, canu, dweud jôc, actio, dawnsio, gwaith celf a llawysgrifen. Ar ôl prynhawn prysur o gystadlu tîm Teifi oedd yn fuddugol o dan gapteniaeth Ffion a Hanna. Rydym yn ddiolchgar i Mrs. Eirlys Owen am gyfeilio. Gwerthfawrogwn y dyrfa o rieni a ffrindiau a ddaeth i gefnogi'r plant. Roedd yn braf gweld y plant wedi gwisgo eu gwisgoedd Cymreig a daeth Mr. Tim Jones i dynnu eu lluniau.

Bu rhai plant yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llanbed. Da iawn chi.

Bu rhai o blant yr adran Iau yn cystadlu yn Trawsgwlad yr Urdd yn Llanbed yn ddiweddar. Da iawn chi.

Roedd nifer o blant yr ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau ar Ddiwrnod y Llyfr. Roeddent yn edrych yn lliwgar iawn.

Bu'r plant yn gwneud gwahanol weithgareddau i ddynodi wythnos Masnach Deg—cyfle da i flasw bywydd!!

Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus ar Fawrth 10fed yn Neuadd yr Eglwys. Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol oedd yn trefnu'r noson. Cafwyd adloniant gan y plant a diolch i bawb am gefnogi'r noson. Gwnaed elw o £319

Bydd Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol yn cynnal ei Cyfarfod Blynnyddol ar Nos Lun, Ebrill 18fed am 7.30 yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:-

Mis Mawrth – 1af - £10 Mrs Rona Jones, Hazelwood, Llanybydder. 2ail - £5 - Hayley James, Brynhegog, Llanllwni. 3ydd - £5 – Christine Thomas, Pontheulog, Llanllwni.

C.Ff.I. Llanllwni

Bu aelodau'r clwb yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni mewn steil, yn ein Cyngerdd blynnyddol yn Neuadd gymunedol Llanfihangel – ar –Arth. Bu amryw o eitemau o ganu i actio yn yr hanner cyntaf, a pherfformiwyd y ddrama yn yr ail hanner. Rwy'n sicr fod pawb wedi mwynhau mas draw! Braf oedd cael cwmni ein llywyddion am y noson, sef Arwyn a Margaret George, Coedlannau Fawr, a diolch i Siân eu merch, am ei

geiriau pwrpasol ar eu rhan. Diolch iddynt hefyd am eu rhodd hael i goffrau'r clwb. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn dop, a diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Yn ystod y mis hefyd, bu aelodau'r clwb yn perfformio'r ddrama ddwy waith arall, o dan wahoddiad C.Ff.I Llanwenog yn gyntaf, ac yna hefyd yn Theatr Felinfach er mwyn codi arian i Eisteddfod Rhys James Pantyfedwen yng nghwmi C.Ff.I. Pontsian a Dyffryn Cothi.

Mae tair aelod o'r clwb yn brysur iawn ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru a gynhelir yn Llanfair ym Muallt, sef Sioned Howells, Siriol Howells, a Mared Phillips. Ond erbyn i chi ddarllen hwn mi fydd y cystadleuaeth drosodd, ond bydd rhaid i chi aros tan mis nesaf i glywed y canlyniadau! Dros y mis diwethaf yn y clwb, rydym wedi bod yn trefnu a pharatoi gogyfer â diwrnod gwaith maes y Sir, a fydd yn cael ei gynnal ar fferm Penllain, drwy garedigrwydd Keith, Rhian a Hefin Jones, ar y 9fed o Ebrill.

Hefyd, mae'r clwb wedi trefnu bingo a fydd yn cael ei gynnal yn Nhafarn y Talardd ar Ddydd Gwener y 15fed o Ebrill am 8 o'r gloch. Dewch yn llu!

Gwellhad Buan

Gwellhad Buan i Gaynor Davies, Penrhiw yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar, a phob dymuniad da i Dewi Davies, Glanafon yn dilyn ei arhosiad yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Hoffai'r Pwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi ddiolch i bawb am eu cefnogaeth noswaith y bingo Pasg a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nhafarn y Talardd - noson llwyddiannus iawn. Gwnaed elw o £413, a diolch yn fawr iawn i Christine o Banc Lloyds am y cyfraniad o £1 am £1 tuag at y noson hefyd.

Hoffem ddymuno pob lwc i Stanley Davies, Steffan Davies a Leah Cope a fydd yn symud i'r Cyfnod Sylfaen ar ôl gwyliau Pasg. Gobeitho byddant yn mwynhau eu hamser yno.

Bydd y Cylch yn dechrau tymor yr Haf ar Ddydd Mawrth 12fed o Ebrill.

Cylch Ti a Fi

Dyma restr gweithgareddau am y mis nesaf:-

15/4/16 - Dŵr a tywod
22/4/16 - Ymwelydd Iechyd
29/4/16 - Little M'zzz

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a tadcu's i ddod gyda'i plant i gymeryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.



Llun o Alwena Mair Owen a Gwennan Lloyd Owen yn Eisteddfod Brynberian. Alwena yn cael cyntaf ar yr Unawd a'r Adrodd 6 - 9 oed a chyntaf ar Alaw Werin a chwarae piano o dan 12 oed, a Gwennan yn cael cyntaf ar Unawd o dan 6 oed.

Tymor Eisteddfodau

Yn Eisteddfod Llanfihangel ar Arth cafodd Alwena Owen, Cwmderi gyntaf ar yr Unawd ac Adrodd yn yr Adran Gyfyndedig Blwyddyn 3 a 4 ac yn ennill cwpan coffa Freddy Brooker am ganu emyn, oed Cynradd. Yn ogystal yn yr Adran Agored yn ennill yr Alaw Werin a Cherdd Dant, oed Cynradd. Enillodd hefyd y wobr o £20 i brynu gwersi cerddoriaeth am chwarae piano oed Cynradd. Cafodd Gwennan, ei chwaer gyntaf am ganu yn yr Adran Gyfyndedig a chyntaf am Adrodd yn yr agored yn yr Adran Meithrin a Derbyn. Yn Eisteddfod Llangadog, yn ddiweddar cafodd Alwena y wobr gyntaf ar Unawd ac Adrodd Blwyddyn 3 a 4 a Gwennan yn cael ail ar Unawd Blwyddyn 2 ac Iau. Da iawn chi ferched.



Cafodd y plant amser da yn ymweld ag Orsaf Dân Caerfyrddin!



Dyma lun o Cylch Ti a Fi wedi gwisgo i fyny ar gyfer Diwrnod yn Llyfr.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chiwysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sclerauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Sut y bydda' i'n pleidleisio

Dw i wedi bod â rhan ym mhob etholiad bellach ers mis Chwefror 1974 ac, am wahanol resymau, wedi gorfod peidio â dangos ochr ynddyn nhw.

Adeg yr etholiad cynta' hwnnw, ro'n i'n ddisgybl chweched dosbarth yng Nghaernarfon a ninnau wedi cael y gwaith o helpu i gyftri'r pleidleisiau.

Fyth ers hynny, dw i wedi bod yn newyddiadurwr, i bapur newydd, neu wasanaeth darlledu neu gylchgrawn. Yn digwydd bod, dw i'n credu y dylai rhywun sy'n gweithio ym myd newyddion gwleidyddol gadw'i geg ar gau am ei fam ei hun ... ac felly y buodd hi.

Ers sawl tro bellach, dw i wedi cael y gwaith o wneud eitemau teledu tafod-yn-y-boch am y gwahanol bleidiau – ychydig fel cartwnydd yn trio ffeindio man gwan a chwarae rhyw ychydig efo hwnnw. A'r nod ydi, trio bod mor bryfoclyd efo pob un.

Rhywbeth fel hyn fydd hi eleni, siŵr o fod ... arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol fydd Kirstyrella, mi fydd Plaid Cymru'n gorfod wynebu'r cwestiwn o baru efo plaid arall ... ond tybed pa un a be fydd y pris?

Dw i'n rhyw amau y byddai gan UKIP well cyfle pe baen nhw'n gallu cuddio lot o'u polisïau a lot o'u hymgeiswyr hefyd ... sy'n rhyfedd i blaid wleidyddol ... tra byddai'n siwtio Llafur pe bai neb arall yn sylweddoli fod yna etholiad o gwbl, rhag ofn siglo'r cwch.

Eisio i bobol anwybyddu cwpwl o ffeithiau y bydd y Ceidwadwyr hefyd ... er enghraifft mai nhw sy'n gyfrifol am y toriadau. Ond, wrth gwrs, fel mae helyntion Port Talbot yn eu dangos, mae'n bosib y bydd yna bob math o bethau wedi digwydd cyn i fi orfod sgrifennu'r sgrïptiau.

Mae argyfwng y diwydiant dur yn gwestiwn mawr, wrth gwrs, ond y peryg, wastad, ydi fod digwyddiadau sydyn dros dro yn gallu effeithio ar hynt etholiad a digwyddiadau yn rywle pell i ffwrdd yn gallu effeithio ar y canlyniadau yng Ngheredigion neu Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.

Ac, efo Refferendwm Ewrop yn y gwynt hefyd, mae yna beryg na fydd buddianau ardaloedd fel un Clonc y cael chwarter digon o sylw. Yr angen mawr ar hyn o bryd ydi gweledigaeth o Gymru sy'n gweld dyfodol iddi hi i gyd.

Felly, er fy mod am gadw at fy llw Trappaidd o ran mynegi barn am y pleidiau, dw i'n credu ei bod hi'n bosib dweud beth y gallwn ni chwilio amdano yn yr ymgeiswyr, a gweld pa rai sy'n cyflawni orau – y nhw a'u pleidiau.

Un o broblemau mawr gwledydd Prydain ydi fod yr economi gyfan wedi ei stumio i gyfeiriad Llundain a de-ddwyrain Lloegr ac mae yna beryg fod Cymru'n mynd i'r un cyfeiriad – yr ateb hawdd i wleidyddion ydi canolbwyntio ar ardaloedd lle mae yna rywfaent o addewid eisoes.

Felly, mae angen gweledigaeth ar gyfer Cymru gyfan – nid dim ond er mwyn yr economi ond oherwydd iaith a diwylliant hefyd. Ac, er nad ydi'r diwydiant amaeth yn cyfri cymaint ag yr oedd yn ariannol erystalwm, mae'n dal i fod yn hanfodol bwysig.

Felly, mae angen gwleidyddion sydd am frwydro tros ddyfodol y math o ffermio sydd gyda ni yma, nid dim ond ffermydd anferth diwydiannol. Ac mae angen deall sut y mae amaeth yn ffitio i mewn i economi a chymdeithas ehangach a gweithio ar y cyfan gyda'i gilydd.

Yn fwy na dim, yr hyn sydd ei angen ydi dychymyg a syniadau newydd. Mae yna nifer o sylwebyddion diduedd yn dweud mai troi mewn merddwr braidd yr yden ni ers datganoli; mae'r sefyllfa ariannol yn anodd, felly mae angen dychymyg i wneud y gorau o'r hyn sydd ar gael.

Mi fydd y gwasanaeth iechyd yn allweddol. Unwaith eto, gweledigaeth sydd ei hangen a gonestrwydd i gydnabod na allwn ni barhau heb rywfaent o newid ac addasu i gwrdd â gofynion yr holl driniaethau newydd a'n disgwyliaid uchel ninnau ... gan gadw egwyddorion gofal a chymuned ar y brig.

O ran unigolion – pwy sydd wirioneddol o ddifri am ddyfodol yr ardaloedd yma?

Cefn Hafo

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun– Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238



W.D. Lewis
o'r Fab

Wysguchwyr, Argyllhwylio,
a'r Llanau, Llanwrda

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan

Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540

Fax: 01570 423644

www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn

Broneb Stores

Pumsaint, Llanwrda

Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwddinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

• Bwyd Priodas

• Bwffe

• Te Angladd

• Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00

- Partion pen-blwydd a yb

- Ciniawau - Cyfarfodydd

- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref o £45
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Adfer Data
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com

Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Cwmann



Llun o'r seremoni Cadeirio yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen.



Yr unigolion â'r pwyntiau uchaf yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen oedd
Casi Gregson yn CA2 a Hari Jones, Tudur Llwyd ac Edward Weedon yn y
Cyfnod Sylfaen.

Ysgol Carreg Hirfaen

Yng ngala nofio'r cylch yn ddiweddar enillodd y tîm y tlws i'r ysgol efo'r
nifer fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod. Bu'r canlynol yn llwyddiannus fel
unigolion: Llyr Jones 1af dull cefn a rhydd, Efan Thomas 2il dull rhydd a
chefn, Rhun Jones 1af dull broga, Llyr Ifan 2il dull broga, Casi Gregson 1af
dull cefn ac 2il dull rhydd, Marged Jones 1af dull broga, Osian Elis Roberts
1af dull broga a Mali Jones 2il dull broga. Llongyfarchiadau i bawb arall a
gymerodd rhan.

Bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol yn
Neuadd Coedmor ar Fawrth y 1af. Cafwyd diwrnod hyfryd yng nghwmni'r
Beirniad Caryl Haf a'i modryb Iona Davies. Agos iawn oedd y cystadlu ond
Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair CA2
am stori Gymraeg gan Elen Jones, a'r darian am y gwaith Saesneg gorau gan
Jessica Jones. Enillwyd cadair Cyfnod Sylfaen gan Hari Jones o flwyddyn
2. Llyr Ifan Davies a enillodd gadair blynyddoedd 3 a 4 ac Efan Thomas y
darian am waith Saesneg. Llongyfarchiadau enfawr i bawb.

Prysur hefyd oedd ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd Llanbed. Cipiodd
Trystan Evans y drydedd wobwr am unawd blwyddyn 2 ac Iau ac Elen Jones y
drydedd wobwr am unawd blwyddyn 5 a 6. Cafodd grŵp llefaru Bl 6 ac Iau y
drydedd wobwr yn ogystal.

Ond i'r brig fe ddaeth Gwenllian Llwyd yn llefaru unigol Bl 5 a 6, yr
ymgom, parti unsain a chôr yr ysgol ac ymlaen aethant i gynrychioli'r cylch
yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ym Mhontrhyfendigaid. Da iawn i bawb a
fu'n cystadlu.

Llongyfarchiadau i grŵp
dawnsio disgo'r ysgol a fu'n
cystadlu yng Ngŵyl Ddawns
Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd
y Celfyddydau yn ddiweddar.
Mwynhaodd y merched y profiad yn
fawr iawn.

Llongyfarchiadau i holl blant
yr ysgol a fu'n cystadlu yng
Nghystadleuaeth Traws-gwlad Dyfed
yn ystod y mis.

Mae nifer o ddisgyblion Cyfnod
Allweddol 2 yr ysgol wedi bod yn
rhedeg Trawsgwlad Cylch Llambod
yn ddiweddar gan brofi llwyddiant
mawr. Pob lwc i'r plant fydd yn
mynd ymlaen i gynrychioli Cylch
Llambod yn Sir Ceredigion.

Bu tîm pêl-droed hynaf yr ysgol
yn chwarae mewn cystadleuaeth
Sirol yng Nghanolfan Hamdden
Caerfyrddin gan chwarae yn
rhagorol a gorffen yn drydydd yn y
grŵp tu ôl i'r enillwyr a'r ail dîm.

Mae Jac Rees o Ysgol Bro Pedr
wedi bod yn hyfforddi sgiliau rygbi
i ddisgyblion CA2 pob prynhawn
dydd Mawrth ers dechrau'r
flwyddyn. Mae'r plant wedi elwa'n
fawr o'r profiad ac wedi cael llawer
o fwynhad.

Cyn gwyliau'r pasg, treuliodd
plant blynyddoedd 3 a 4 dridiau
arbennig yng Ngwersyll yr Urdd
Llangrannog. Cafwyd llawer
o hwyl yn gwibgartio, sgio,
marchogaeth ceffylau, dringo wal a
llu o weithgareddau eraill. Braf oedd
gweld y plant yn mwynhau a diolch
i Miss Davies a Miss Ffion am fynd
â nhw.

Bu PC Alun yn ymweld â'r ysgol
unwaith eto i drafod amrywiaeth o
bynciau diogelwch personol.

Mae blwyddyn 2 wedi bod yn
rhan o gynllun 'Gwyliau Adar yr
Ysgol' a drefnwyd gan yr RSPB yn
genedlaethol. Roedd yn ffordd wych
o ddod i adnabod amrywiaeth o
wahanol fathau o adar ac i gofnodi'r
niferoedd.

Bu Hari o flwyddyn 2 yn siarad
efo Ioan Wyn, newyddiadurwr o
radio Cymru. Bu'n trafod ei amser
yn hyfforddi efo clwb pêl-droed
Abertawe. Edrychwn ymlaen i
glywed y rhaglen pan fydd yn cael ei
darlledu cyn hir.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid
gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn
cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

3			1		5		
	2			8	3		9
		8		6		3	7
		6				4	9
9	3				8		
	4	7		9	6		
	8		7	5		4	
		9			1		7

Swdocw Mawrth:

Llongyfarchiadau i
**Elma Phillips, Llys
Gwyn, Cellan** a diolch i
bawb arall am gystadlu:
Avril Williams, Y Fedw,
Cwmann; Glenys Davies,
Gelli Aur, Llanybydder;
Gwenan Haf Jones,
Cae Seiri, Caerfyrddin,
Eurwyn Davies, Heol-
y-Gaer, Llanybydder;
Hugh Evans, Coedparc,
Llanybydder; Joan Stacey,
Tynwaun, Ffaldybrenin; Sian Blake, Penlon Cottages,
Gorsgoch a Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder.

2	9	1	7	8	4	6	3	5
5	4	7	3	6	1	2	9	8
8	6	3	5	2	9	7	1	4
4	2	9	8	3	7	1	5	6
1	8	6	4	5	2	9	7	3
3	7	5	1	9	6	4	8	2
6	1	8	9	4	3	5	2	7
9	5	4	2	7	8	3	6	1
7	3	2	6	1	5	8	4	9



**Dyddiadau
i'w cofio:
Rali Sir Gâr:
Mai 14eg**

**Rali Ceredigion:
Mehfin 4ydd
yn Nhalybont
ger Aberystwyth.**

Yn Nawns Dethol Swyddogion CFFI Ceredigion am y flwyddyn 2016-17 a gynhaliwyd yn ddiweddar dewiswyd y canlynol, Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Dewi Jenkins, Talybont a Brenhines y Sir yw Bethan Roberts, Mydroilyn. Pob ochr iddynt mae eu dirprwyon, o'r chwith - Megan Lewis, Trisant; Meirian Morgan, Llangeitho; Elliw Dafydd, Bro'r Dderi a Lauren Jones, Llanwenog.

C.Ff.I. Ceredigion

Helo a shwmae, wrth Angela Evans a Carwyn Hawkins! Fel Aelod Hŷn a Iau y Sir, ein dyletswydd newydd sbon yw adrodd hanes y Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion i chi. Diolch o galon i Bethan Roberts ac Eiry Williams am eu gwaith llynedd. Edrychwn ymlaen i drosglwyddo hanes, canlyniadau a bwrlwm y mudiad i chi yn ystod y flwyddyn nesa!

Teithiodd sawl clwb o'r sir lan i theatr y Stiwt yn Rhosllanerchrugog ar gyfer y Gwledd o Adloniant ar benwythnos y 5ed a 6ed o Fawrth. Llongyfarchiadau i Glwb Llangeitho am ddod yn gydradd 3ydd yn y Ddrama Gymraeg ac yn ennill gwobr Paul Elkinson am y perfformiad technegol gorau ar y Dydd Sul.

Da iawn i Glwb Llanwenog am gynrychioli'r Sir yn y gystadleuaeth Amser i Serenni, ac i Angela Evans o Glwb Tregaron a Carwyn Hawkins o Glwb Felinfach am gystadlu yn yr Aelod Hŷn a Iau ar y Dydd Sadwrn.

Dewisiwyd swyddogion newydd y Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn Nawns Dewis Swyddogion yn ddiweddar yn Llanina. Cafwyd adloniant gan fand Tom Collins a braf oedd gweld Llanina yn llawn aelodau'n mwynhau, dawnsio a chymdeithasu!

Brenhines y Sir eleni yw Bethan Roberts o Glwb Mydroilyn, a'r Ffermwr Ifanc yw Dewi Jenkins o Glwb Talybont. Y dirprwyon yw Megan Lewis o Glwb Trisant, Meirian Morgan o Glwb Llangeitho, Elliw Dafydd o Glwb Bro'r Dderi a Lauren Jones o Glwb Llanwenog. Llongyfarchiadau gwresog i'r

chwech ohonoch. Edrychwn ymlaen i gydweithio a joio gyda chi yn ystod y flwyddyn!

Cynhaliwyd gymanfa lwyddiannus yn Nghapel Brynhafod Gorsgoch, ar Nos Sul 13 o Fawrth, gyda'r Frenhines Enfys Hatcher, a'r Ffermwr Ifanc Dion Davies ble codwyd dros £800 tuag at Ysgoloriaeth er cof am Miriam Briddon. Bu rhai o aelodau'r Sir yn rhoi llaw at arwain hefyd yn ystod y noson hwylus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Canlyniadau y Clwb 200 Chwefror 2016

1. 93. Rhun a Ceris Fychan, Penwern, Cilcennin, Llanbedr Pont Steffan.

2. 87. Anwen Williams, Waunlwyd, Pencader, Sir Gâr.

3. 104. Rhiannon Davies, Blaenglowon Fawr, Talgarreg, Llandysul.

Mawrth 2016 -

1. 34. Glyn a Beth Davies, Lloydjack, Felinfach.

2. 53. Adrian Colbourne, Anor, Ffostrasol, Llandysul.

3. 54. Emyr Davies, Aberdaudwr, Llanddewi Brefi, Tregaron.

I ddod:

15 Ebrill Gala Nofio

20 Ebrill Pwyllgorau'r Sir

23 Ebrill Diwrnod Maes Cymru

yn Marchnad Da Byw Sir Fynwy, Raglan

29 Ebrill Cinio'r Cadeirydd

6-8 Mai Penwythnos CCB

NFYFC yn Blackpool

14 Mai Chwaraeon y Sir yn

Llambled



Cynhaliwyd dawns dewis swyddogion CFFI Sir Gâr ar nos Wener y Groglith ym Mhenybont, Llanfynydd a bu Carys Ann Thomas, Clwb Cwmann yn llwyddiannus i gael ei dewis fel dirprwy llysgenhades.

Swyddogion eraill Sir Gâr yw Hefin Evans, Capel Iwan a Ffion Medi Rees, Llanfynydd yn llysgenhadon a Ffion Gwen Davies, Llangadog yn ddirprwy gyda Carys.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar lwyfan y Rali ym mis Mai.

Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys: cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



Dysgu
Bro
CEREDIGION
Community
Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Taith i Dde America yn wobwr i enillwyr Fferm Ffactor 2016

Bydd enillwyr y gyfres nesaf o raglen S4C Fferm Ffactor: Brwydr y Ffermwyr yn hedfan i Dde America i fwynhau taith fythgofiadwy.

Mae'r sianel a chynhyrchwyr y rhaglen, Cwmni Da, wedi cyhoeddi y bydd y cwmni teithio, Teithiau Tango, yn cynnig gwyliau 15 diwrnod i Dde America i'r tîm buddugol.

Mae cynhyrchwyr y gyfres yn chwilio am wyth tîm o dri i gymryd rhan yn y gyfres eleni. Bydd y gyfres yn cael ei ffilmio dros yr haf.

Gall y timoedd fod yn gyfuniad o deuluoedd, cymdogion, ffrindiau neu gydweithwyr, sydd yn gallu siarad Cymraeg. Bydd y cystadleuwyr angen bod yn barod i weithio'n galed a mwynhau hwyl a her wrth iddyn nhw wynebu amrywiaeth eang o sialensiau amaethyddol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cystadlu neu i enwebu rhywun arall i gymryd rhan, gallwch chi lenwi ffurflen gais ar wefan Fferm Ffactor ar s4c.cymru. Hefyd, gallwch gysylltu â Gwifren Gwylwyr S4C ar 0370 600 4141. Gallwch hefyd gysylltu â'r tîm cynhyrchu yn Cwmni Da am fanylion pellach, drwy ffonio 01286 685 300 neu e-bostio ffactor@cwmnida.tv.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Teithiau Tango, Aled Rees, sy'n cynnig y wobwr eleni, "Bwriad Teithiau Tango yw gwneud yn siŵr bod enillwyr Fferm Ffactor 2016 yn cael y profiad gorau posib. Fe wnawn ni ein gorau glas i sicrhau y byddan nhw'n siarad am eu profiad yn Ne America am weddill eu bywydau. Dyma gyfle i fwynhau profiad anhygoel a chael eich tywys o amgylch rhai o gyrchfannau mwyaf deniadol y byd, a hynny am hyd at 15 diwrnod."

Alltyblaca

Ar wellhad

Braf yw gweld bod Sara Humphreys-Jones, Frongelli adref yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Silian

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Elliw Dafydd, Gwarffynnon ar gael ei dewis yn un o Ddirprwyon C.F.F.I. Ceredigion am y flwyddyn 2016 – 2017. Edrychwn ymlaen at dy weld ar lwyfan Rali Talybont ddechrau mis Mehefin.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Eleri ag Owenna a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a mamgu annwyl iawn a fu farw yn ddiweddar.



Bu Twynog Davies, Pentrebach yn ysgrifennu'r golofn hon ym Mhapur Bro Clonc am flynyddoedd. Dyma'r hyn ysgrifennodd John Beaufort Williams amdano yn Llyfr Twynog 'Cymeriadau Bro' a gyhoeddwyd yn 2007. Yn anffodus, bu farw Hazel ei wraig yn 2012, ond mae Twynog dal yn weithgar yn y gymuned. Bu Hazel yn ysgrifenyddes Cymorth Cristnogol yr ardal am chwarter canrif, ac erbyn hyn mae Twynog yn parhau â'r gwaith da. Y bwriad dros y misoedd nesaf yw atgyfodi'r golofn boblogaidd hon drwy garedigrwydd nifer o wirfoddolwyr gwahanol. Os hoffech gyfrannu, neu y gwyddoch am gymeriad diddorol, cysylltwch â'r golygydd.

TWYNOG

Mae Twynog yn adnabyddus ledled Cymru am ddau reswm yn bennaf – yn rhinwedd ei hen swydd gydag ADAS ac yn rhinwedd ei ddawn. Bu'n gweithio gydag ADAS am dros bymtheng mlynedd ar hugain gan deithio mynydd-dir a dyffrynnoedd Cymru yn cynghori ffermwyr ar wahanol agweddau amaethyddol. Mae hefyd yn gerddor o fri, yn arweinydd corau a chymanfaoedd, yn feiriad eisteddfodol ac yn godwr canu. Does dim rhyfedd nad oes angen ychwanegu'r cyfenw 'Davies' tuag at y 'Twynog'. Mae'r enw cyntaf yn ddigon i ddyn mor brysus â hyn!

Mab i fferm yw Twynog ac fe'i anwyd a'i fagwyd ar y fferm deuluol ger pentref Manordeilo yn Nyffryn Tywi. Yr adeg honno roedd y teulu yn cyflogi pedwar gwas a morwyn ac mae'r ffaith hon yn unig yn dyst i'r modd y mae amaethyddiaeth wedi newid ar hyd y blynyddoedd. Aeth i Ysgol Gynradd Llangadog ac i Ysgol Ramadeg Llanymddyfri. Wedi ennill graddau da yn ei Lefel A aeth i Goleg Gelli Aur. Cyfnod hapus iawn oedd ei gyfnod yno a hynny yn anad dim am iddo gyfarfod â Hazel yno. Wedi gorffen ei gwrs yng Ngelli Aur aeth adref i weithio ar fferm ei rieni am flwyddyn, ond roedd wedi cael blas ar fywyd coleg ac felly aeth am Brifysgol Bangor i astudio amaethyddiaeth yno. Graddiodd yn 1960 gan ymuno â Gwasanaeth Cynghori y Llywodraeth yng Nghaerfyrddin. Ymhen dwy flynedd wedyn roedd Hazel ei gariad o Gelli Aur bellach yn wraig iddo.

Cyn hir symudodd y ddau i Ddolgellau gyda Twynog wrth ei fodd yn cael teithio mynydd-dir canolbarth a gogledd Cymru a chael ei dderbyn fel ffrind gan ffermwyr y fro. Bu'n aelod amlwg o fudiad y ffermwyr ifanc a dewiswyd ef yn Llywydd y Sir yn 1966. Yn ystod y cyfnod hwn daeth cwmwl du clwyf y Traed a'r Genau i'r amlwg a threuliodd Twynog dri mis yng Nghaer yn un o swyddogion y Llywodraeth oedd yn ceisio dygymod â'r haint. Ni chafodd weld ei deulu yn ystod y cyfnod hwn ond wedi'r cyfnod gwaharddedig ac yntau'n cael dychwelyd at ei deulu cafodd ei garcharu mewn lluwchfeydd eira ar flynyddoedd y Carneddau gan orfod treulio noswaith arall eto ymhell o fynwes ei deulu.

Yn 1970 cafodd ei symud unwaith eto gan y Weinyddiaeth Amaeth o ucheldir y canolbarth i ddyffryn ffrwythlon Teifi. Cartrefodd y teulu yn nhre Aberteifi ac mewn dim o dro ymdoddi i gymdeithas y dref a gwneud ffrindiau newydd. Yn 1977 roedd rhaid codi pac to a'r tro hwn i Lanbed. Colled Aberteifi oedd ein hennill ni! Sefydlodd yma Gylch Trafod Amaethyddol, sefydliad sydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd ac erbyn heddiw â thros 70 o aelodau.

Cyn hir cafodd ddychafiad arall a'i benodi yn Brif Swyddog gydag ADAS a hynny dros faterion cymdeithasol a gwledig gan weithio'n bennaf o hen blasdy Trawsgoed ger Aberystwyth. Mantais fawr y swydd hon oedd y medrai'r teulu ddal i fyw yn Lanbed ac y câi Twynog a Hazel barhau â'u diddordebau a'u gwaith cymdeithasol yn yr ardal. Magwyd ganddynt yn Lanbed dri o blant, ganwyd y ddau hynaf yn Nolgellau a'r cyw melyn olaf yn Aberteifi. Mae Eirian yn Bennaeth Bywydeg yn Ysgol Thomas Jones, Amlwch ac mae Eleri yn Bennaeth Marchnata S4C. Arhosodd Rhian yn ei milltir sgwâr ac mae'n gweithio yn Adran Personél Cyngor Sir Ceredigion.

Daeth amser ymddeol ond doedd Twynog ddim yn barod i roi'r ffidil yn y to ac aeth i weithio am ddwy flynedd arall i Antur Teifi. Anrhydeddwyd ei gyfraniad i amaethyddiaeth yng Nghymru gyda'r fraint o gael ei wneud yn Gymrawd y Sioe Frenhinol.

Mae cerddoriaeth wedi bod yn bwysig i Twynog gydol ei oes. Roedd yn chwarae'r ffidil pan yn blentyn ysgol



ac yn aelod o gerddorfa Gogledd Myrddin. Cafodd y profiad cyntaf o arwain côr pan oedd yn Nolgellau a gwahoddwyd ef i arwain cymanfa ganu Ffermwyr Ifanc Sir Feirionnydd. Hon oedd y Gymanfa gyntaf o gannoedd i ddod. Ffurfiodd barti bechgyn i ganu yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd ac er yn barti newydd cafwyd llwyddiant gyda'r ail wobwr. Wedi symud i Aberteifi sefydlodd gôr Penparc a fu'n llwyddiannus iawn mewn nifer o Eisteddfodau Rhys Thomas James a dod yn agos iawn i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe. Roedd gofid mawr ym Mhenparc pan symudodd y teulu i Lanbed ond aeth Twynog yn ôl i'w hen ardal o leiaf unwaith yr wythnos i ymarfer y côr ac i gynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau.

Ni ddigwyddodd hyn ar draul ei ardal newydd 'chwaith. Bu'n arwain côr yr Urdd yn Lanbed am flynyddoedd a chafodd llu o blant a phobl ifanc y siawns i fod yn aelod o gôr ac i gystadlu ar lwyfannau'r ardal oherwydd ei ymroddiad. Enillodd y côr yn Eisteddfod yr Urdd, Castell Newydd Emlyn ac fe'u gwahoddwyd i ymddangos mewn nifer o raglenni teledu a radio. 'Signature Tune' y côr oedd 'Brenin Seion' ac mae'r gân hon ar gof aelodau'r côr hyd at heddiw!

Roedd 1984 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes Lanbed pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â'r dref. Etholwyd Twynog yn Gadeirydd y Pwyllgor Cerddoriaeth a chafodd yr anrhydedd o arwain y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn mawr gyda Delyth Hopkins Evans. Dyma benllanw teilwng i ddawn gerddorol Twynog. Derbyniodd y wisg Wen fel anrhydedd yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi.

Does dim diwedd i'w gyfraniad i ddiwylliant y fro. Bu'n Gadeirydd pwyllgor Eisteddfod Pantydfedwen ac yn weithgar mewn gwahanol bwyllgorau o hyd. Bu'n Llywydd y Cylch Cinio ac ef eleni yw'r ysgrifennydd. Mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan ac yn gefnogol i ymdrechion y Pennaeth a'r staff i gynnal safonau uchel yr ysgol.

Yn bwysicach efallai na hyn i gyd yw'r ffaith ei fod yn Flaenor ac yn ysgrifennydd Capel Sheiloh. Ef yw un o bileri'r achos yn Lanbed. Mae hefyd yn drefnydd trip penigamp! Yn flynyddol mae'n trefnu trip y Capel i ardaloedd diddorol yng Nghymru ac yn sicrhau bod arbenigwr o'r ardal yn ein tywys ac yn ein haddysgu am hanes a thraddodiad yr ardal. Mae llawer iawn o bobl yr ardal yn edrych 'mlaen yn eiddgar am driplau 'Twynog Tours'!

Yng nghanol y cyfan mae'n cael amser i ymddiddori mewn chwaraeon, yn arbennig criced. Mae'n ddilynwr brwd o Glwb Criced Morgannwg ac mae'r brwdfrydedd hyn yn parhau er gwaethaf record dorcalonnus y tîm yn ystod y ddau dymor olaf!

Ni allai Twynog fod wedi cyflawni hanner o'r uchod oni bai am gefnogaeth Hazel drwy gydol ei yrfa ddisglair. Ef yw'r cyntaf i gydnabod hyn. Y teulu yw cefn y dyn prysur hwn. Diolch amdanynt; diolch amdano.



Cynghrair Trawsgwlad Gwent. Yn dilyn ras olaf cynghrair trawsgwlad Gwent yn Aberhonddu ar y 5ed o Fawrth, fe orffenodd Richard Marks yn yr ail safle ond llwyddodd i gipio'r aur yn y gyfres yng nghategori y dynion 65. Mae Beca Mai Roberts a Rhys Williams wedi rhedeg yn gyson dda trwy gydol y gyfres ac yn Aberhonddu fe orffenodd Beca yn 23ain allan o 50 yn ras merched dan 13 a Rhys yn gorffen yn 31 allan o 78 yn ras y bechgyn novice. Llongyfarchiadau i'r tri.

Canlyniadau eraill - mae'r rasmus yn prysur lenwi calendr aelodau Sarn Helen gyda sawl hanner marathon wedi profi'n boblogaidd yn ystod y mis. Ar y 27ain o Chwefror, cynhaliwyd hanner marathon Ras Dewi Sant ar hyd llwybrau arfordir Sir Benfro gan ddechrau a gorffen yn Nhŷ Ddewi. Teithiodd 4 aelod o Sarn Helen i roi cynnig ar 13.1 milltir o'r llwybrau mwdlyd ond gyda thywydd ffafriol gellid gwerthfawrogi'r golygfeydd godidog pe bai'r rhedwyr yn dymuno!! Dangosodd Eleri Rivers ei chryfder wrth iddi fod y pedwerydd merch i groesi'r llinell derfyn a'r cyntaf yng nghategori y merched dros 40 mewn amser o 1.54.30, gyda Helen Willoughby hefyd yn fuddugol yn y categori i ferched dros 50 mewn 2.04.26. Yn cynrychioli'r dynion oedd David Thomas ac Aneurin James gyda David yn cipio'r 3ydd wobwr i ddynion dros 50 mewn 1.56.20 ac Aneurin yn mwynhau'r math yma o ras yn gorffen mewn 2.01.21.



Cynhaliwyd ras flynyddol 5 a 20 milltir o amgylch llynnoedd Rhaeadr ar Fawrth y 5ed, ac mae hon yn ras boblogaidd gan aelodau'r clwb sy'n paratoi at farathon yn ystod y gwanwyn. Gorffenodd Ken Caulkett y ras 20 milltir yn y 6ed safle allan o 332 o redwyr mewn 2.09, gyda Carwyn Davies yn gorffen mewn 2.22, George Eadon, 2.31 a Caryl Wyn Davies, 2.49. Rheddodd gwraig Carwyn, Emma, aelod newydd i'r clwb, y ras 5 milltir gan orffen mewn 51.36.

Ar Fawrth y 6ed, cynhaliwyd hanner marathon Merthyr Tudful gyda 5 o Sarn Helen yn bresennol. Gyda dros 500 o redwyr, gorffenodd Simon Hall yn y 10fed safle mewn 1.23.55 gyda'i Dad, Tony Hall yn gorffen mewn 1.37.13 gan ennill categori y dynion dros 60. Gorffenodd Dee Jolly mewn 1.39.42, Mitchell Readwin 1.46.51 a Dawn Kenwright yn ennill categori y menywod dros 60 mewn 1.50.

Roedd Dydd Sul, Mawrth 13eg yn un prysur iawn i redwyr y clwb gyda nifer o rasmus amrywiol yn cymeryd lle.

Roedd hanner marathon Llanelli yn dechrau a gorffen ym mharc y Scarlets gyda'r cwrs yn un cyflym iawn a dau o'n haelodau yn cael eu hamseroedd gorau. Llwyddodd Mitchell Readwin redeg amser o 1.43.57 ac Heather Hughes [llun ar ochr dde] mewn 1.55. Roedd Gŵr Heather, Kevin Hughes hefyd yn falch iawn o orffen o dan 90 munud mewn 1.29.24. Yna, ar draws y ffin yn Silverstone, nid y ceir rasio oedd i'w gweld ar y trac ond rhedwyr yn cymeryd rhan mewn hanner marathon a Terry Wyn Jones yn eu plith. Roedd e'n bles iawn o'i amser o 1.45.43 ac roedd yn rhedeg y ras gyda'i gydweithwyr o'r Frigad Ddan.

Yn agosach at adre, cynhaliwyd ras 5k yng ngerddi Botaneg, Llanarthne gyda Helen Willoughby yn ennill ras y merched mewn 22.36 gydag Aneurin James yn rhedeg mewn amser o 25:53 ac Emma Gray yn gorffen mewn



33:54.

Y ras ola am y diwrnod oedd Ras Gŵyl Ddewi 10k yn Llanddewi Brefi gyda Dylan Lewis yn ennill y ras mewn trwch blewyn mewn 35.12 wrth iddo gael ei herio gan y seren ifanc Sion Price a orffenodd mewn 35.18. Aeth y 3ydd safle i Ken Caulkett mewn 37:06 gan adael Llewelyn Lloyd yn 4ydd mewn 37:19. Eleri Rivers enillodd ras y merched mewn 45.33 gan ychwanegu tarian arall i'w chasgliad. Hwn oedd ail ras y dydd i Helen Willoughby ac fe orffenodd yn 4ydd merch mewn 49:13. Roedd canlyniadau gweddill merched Sarn Helen fel a ganlyn - Donna Teed-Davies 53:09, Helen Davies 54:02, Fiona Davies 57:22, ac fe redodd y gŵr a'r wraig Carwyn ac Emma Davies gyda'i gilydd mewn 65:57. Yng nghategori y dynion 40, Sarn Helen gipiodd yr holl wobrau wrth i Richard Marks ennill mewn 40:21, gyda Nigel Davies yn 2il mewn 40:38, ac Andrew Davis yn 3ydd mewn 40:49, gyda Michael Davies yn dychwelyd i ffitrwydd wedi cyfnod hir o anaf, mewn amser o 43:26. Roedd un o ieuenctid y clwb, Thomas Willoughby wedi rhedeg yn dda i orffen mewn 45:03.



Canlyniadau'r plant. Roedd rasmus i'r plant yn Llanddewi Brefi hefyd gyda 4 categori gwahanol. Dan 9 (2km)- Nia Williams 1af merched mewn 10:22, Maddie Caulkett 2il 10:56. Harri Rivers 1af i fechgyn mewn 9:24. Dan 11 (3km)- Violet Caulkett 3ydd i ferched 16:04, Becca Jones 5ed 16:58. Rhys Williams 1af i fechgyn mewn 12:33, Sean Wood 7fed 18:43. Dan 13 (4km)- Gwawr Davies 1af merched 19:37. Jack Caulkett 1af bechgyn 17:26. Dan 15 (5km)- Daniel Willoughby 22:32.



Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Mae mis Mawrth wedi bod yn fis prysur tuhwnt yn Theatr Felinfach gyda nifer o gynrychiadau a pherfformiadau.

Ar Nos Wener, 4ydd Mawrth roedd gig yma gan y grŵp gwerin a rhyng Geltaidd Jamie Smith's MABON. Band gwych sydd wedi bod dros y byd i gyd ac a oedd yn ymweld â ni fel rhan o'i taith 'The Space Between'.

Bu Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn cynnal Noson o Ddramâu yma ar Nos Lun, 7fed Mawrth lle cafwyd cyfle i ail weld rhai o ddramâu'r Clybiau Ffermwyr Ifanc. Yna, ar Nos Iau, 10fed Mawrth roedd Theatr Pena yma unwaith yn rhagor gyda'i chyflwyniad o'r clasur Americanaidd 'The Glass Menagerie' gan Tennessee Williams.

Roedd Cwmni Theatr Bara Caws yn perfformio'i chynhyrchiad diweddaraf ar Nos Sadwrn, 12fed Mawrth, sef Hogia Ni - Yma o Hyd gan Meic Povey. Drama amrwd a dirdynol iawn yn dangos y creithiau mae rhyfel yn ei adael yn feddyliol. Drama i'w gwerthfawrogi oedd hon.

Am y tro cyntaf erioed, ymwelodd OPRA Cymru â Theatr Felinfach ar Nos Fercher, 16 Mawrth gyda fersiwn Gymraeg o gomedi poblogaidd Donizetti, Deigrin yn y Dirgel, (L'elisir d'amore). Roedd y cast yn ifanc a chafwyd dehongliad ffres a chyfoes.

Tro Cwmni'r Gobaith oedd hi Nos Sadwrn, 19eg Mawrth a chafwyd dau berfformiad o 'Se'r welydd 'ma'n siarad' yng Nghapel Rhyd-y-Gwin, Temple Bar gan drawstoriad eang o aelodau'r cwmni. Cyflwyniad am bwysigwydd y Tŷ Capel a'i drigolion o fewn ein diwylliant a'n cymdogaethau oedd y cynnwys. Cynhyrchiad syml ond gafaelgar iawn a fyddai'n addas mewn unrhyw gapel. Cynhyrchiad llawer rhy dda i'w berfformio ond dwywaith! Yn cloi'r mis prysur hyn o weithgareddau a sioeau oedd perfformiadau gan Gwmnïau Dawns Ceredigion ar Nos Iau, 31ain Mawrth ar y thema 'Darganfod'. Roedd y cyflwyniadau yn rhan o brosiect byd eang 'Big Dance' eleni lle roedd grwpiau dawns dros y byd yn cyflwyno perfformiadau ar yr un thema yn ystod mis Mawrth.

Cyn gwyliau'r Pasg, cynhaliwyd arddangosfeydd gan Glybiau Drama 'Dramatic!', yn y tair ardal lle cynhelir y clybiau, sef Tregaron, Llandysul ac Aeron, dan arweiniad Lia Mair Jones, Swyddog Creadigol Diwylliant Bro Theatr Felinfach. Roedd yr arddangosfeydd yn gyfle i roi blas o'r hyn oedd yr aelodau wedi bod yn ei wneud dros y ddau dymor diwethaf. Cafwyd tair arddangosfa lwyddiannus a daeth nifer o rieni a ffrindiau i weld y gwaith gorffenedig.

Rhaid oedd ffarwelio â Lia Mair Jones ar ddiwedd Mawrth. Roedd Lia wedi gweithio fel Swyddog Creadigol Diwylliant Bro gyda ni yn Theatr Felinfach ers iddi gael ei phenodi ym Mehefin y llynedd i'n cynorthwyo gydag amrywiol brosiectau, yn benodol Clybiau Drama Dramatic!, Sesiynau TicToc a CIC! a thros gyfnod mamolaeth aelod arall o staff. Bu'n weithgar iawn ac yn aelod gwerthfawr iawn o'n tîm staffio. Byddwn yn gweld ei heisiau ond rydym yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Mae Theatr Felinfach wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dechrau'n Deg yn ddiweddar ac wedi bod yn cynnal sesiynau TicToc i grwpiau amrywiol yn Aberteifi, Felinfach ac Aberystwyth. Os oes diddordeb gydag unrhyw fudiadau neu sefydliadau i gydweithio ar brosiectau yn y dyfodol, cysylltwch â Ffion Medi, Uwch Swyddog Creadigol ar 01545 574102 neu ffion.hughes@ceredigion.gov.uk

Sesiynau stori, dawns a chân yn y Gymraeg i blant 0-3 oed a'u rhieni yw TicToc. Fe'i cynhelir pob bore Gwener, 10.00-11.00yb yn ystod y tymor academiaidd - £3 y plentyn a £1 i bob plentyn ychwanegol.

Dechreuodd Hwyl a Hamdden y mis mewn steil a dathlu Gŵyl Ddewi yn Nhafarn Dyffryn Aeron lle cafwyd gwledd yn ôl yr arfer. Yr wythnos ganlynol, cafwyd ymweliad gyda'r actores a cantores Toni Caroll a chyflwynodd ragflas o'i hunangofiant - Tynnu Colur. Dau o fechgyn Bont oedd y cwmni'r wythnos ganlynol, sef John Watkin a Charles Arch yn cyflwyno hanes eu taith i Batagonia a sesiwn olaf y mis oedd prynhawn yng nghwmni Gwyn Evans yn cyflwyno ei hanes yn ymuno â'r fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Llongyfarchiadau i ddau o grwpiau cymunedol Theatr Felinfach, sef Cyfeillion y Theatr a Cardi-Gân am fod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau unigol i Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru. Mae'r ddau grŵp wedi llwyddo i gael £250 yr un tuag at gynnal gweithgareddau recriwtio yn ystod Wythnos Celfyddydau Gwirfoddol 2016 sydd i'w gynnal rhwng 6 a 15 Mai eleni.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr?

• 16/04/16 – TRIO, sef grŵp lleisiol o Ogledd Cymru – Emyr Wyn Gibson, Bedwyr Gwyn Parri a Steffan

Lloyd Owen a PIANTEL – dau offerynnwr adnabyddus a phoblogaidd, sef Annette Bryn Parri (piano) a Dylan Cernyw (telyn)

• Noson gan y Cyfeillion yn ystod yr Wythnos Celfyddydau Gwirfoddol 2016 6 – 15 Mai

• 7/05/16 - Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno MELA gan Linda Gittins, Derec Williams a Penri Roberts.

Cwmsychpant

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Eirwyn Davies, Maesnewydd yn teimlo'n well erbyn hyn ar ôl bod yn anhwylus yn ystod y mis.

Capel y Cwm

Bedydd

Braf oedd gweld Capel y Cwm yn gyfforddus lawn ar ddydd Sul, Mawrth 13eg pan gynhaliwyd Bedydd Efa, merch Eluned ac Ifor Jones, Cae Sarn, Cwrtnewydd. Y Parch Wyn Thomas fu'n gyfrifol am y gwasanaeth gyda Meleri Williams wrth yr organ.

Hyfryd hefyd, oedd clywed yn ystod y gwasanaeth bod Eluned ac Ifor am ddod yn aelodau llawn i Gapel y Cwm ac mae'n bleser cael eu croesawu yn aelodau llawn i Gapel y Cwm.

Arholiad Ysgol Sul y Smotyn Du



Bore dydd Sul, Mawrth 20fed daeth 15 o blant ac ieuenctid i Festri Capel y Cwm i wneud yr Arholiad. Yn ôl yr arfer Mrs Nanna Ryder, Tyngrug-ganol fu'n holi cwestiynau i'r plant a chafodd y plant lleiaf gyfle i liwio llun hefyd. Ar y diwedd aeth pawb mewn i'r capel i gyd-ganu yr emyn a ddysgwyd ar eu cof sef Ellen. Roedd disgyblion Uwchradd wedi gwneud ffeil o ffaith ar Iolo Morgannwg a Bl. 5 a 6 ar Dewi Sant. Roedd rhain yn ddiddorol iawn. Diolch i chi blant ac ieuenctid am ddal i gefnogi Ysgolion Sul yr ardal.

Noson o Ddramâu

Nos Lun, Mawrth 7fed daeth tyrfa arbennig o dda i Theatr Felinfach i gefnogi Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen wrth iddynt gynnal Noson o Ddramâu yng nghwmni Clybiau Ffermwyr Ifanc lleol sef Llanllwni, Pontsian a Dyffryn Cothi. Croesawyd pawb i'r Theatr gan Delyth Morgans Phillips, cadeirydd Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambled ond arweinydd y noson oedd Manon Richards, Llambled – un a oedd yn gyn aelod gweithgar iawn o'r CFFI ac hefyd un a fu yn cystadlu ar lwyfan ein Heisteddfod yn Llambled. Fe wnaeth Manon arwain y noson yn gampus iawn o un ddrama i'r llall gan roi ambell i ffaith diddorol am y clybiau. Cafwyd pawb yn rollo chwerthin drwy'r nos yng nghwmni'r clybiau. Gwelwyd llond llwyfan o dalent yr ifanc yn perfformio ar lwyfan y theatr- tair comedi a gawsom – llawn doniolwch.

Einir Ryder o Gwmsychpant oedd Llywydd y noson. Cafwyd araith arbennig ganddi yn cofio nôl am y dyddiau pan fu'n cystadlu yn Llambled pan yn ifancach ac roedd yn hoff iawn o ennill arian da bob amser yn Llambled. Roedd hon yn noson arbennig iawn i'r ifanc – talent lleol ar eu orau.

Diolch yn fawr iawn i'r tri clwb am roi o'u hamser prin i ddiddanu cynulleidfarn niferus iawn yn Theatr Felinfach. Gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.

Tynnwyd raffl – a diolch i bawb a wnaeth gyfrannu gwobrau da i'r raffl. Talwyd y diolchiadau ar y diwedd gan Delyth Morgans Phillips i bawb am noson a bydd yn sefyll yn y cof am amser hir gan ddolch i bawb a gefnogodd y noson gan sicrhau elw teilwng iawn i'r Eisteddfod.





Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr, Llanbed

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 2
– Storiâu Cymraeg 1af Charley 2ail Megan 3ydd Sofie
Storiâu Saesneg 1af Rebekah 2ail Kyna 3ydd Lucien.



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 4
– Storiâu Cymraeg 1af Regan 2ail Rhun 3ydd Sara
Storiâu Saesneg 1af Elizabeth 2ail Oliver 3ydd
Immanuel.



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 6
– Storiâu Cymraeg 1af Jodie 2ail Harvey 3ydd Lisa.

Ysgol Bro Pedr Iau

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn Eisteddfod
Ysgol Bro Pedr ar ddydd Gŵyl Dewi. Cafodd pob
disgybl o'r ysgol gyfle i berfformio trwy gyfrwng y
Gymraeg yn ogystal â ysgrifennu storiâu, gwneud gwaith
Celf a llawysgrifen. Tŷ Dewi oedd yn fuddugol ar
ddiwedd yr eisteddfod gyda 176 o farciau a'r capteiniaid
ac is-gapteiniaid oedd Dewi, Lisa, Meilyr, Jodie, Pedr
yn ail gyda 128 o farciau a'r capteiniaid ac is-gapteiniaid
oedd Elwyn, Nimet, Harvey a Sophie a Steffan yn
drydydd gyda 117 o farciau a'r capteiniaid oedd Austin,
Kodi, Bendeguz ac Annabel.

Daeth Mair Tomos Ifans i wneud cyfres o chwaraeon
buarth gyda disgyblion y dosbarth Derbyn a blwyddyn 1
a'u hannog i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd
prynhawn o hwyl ar iard yr ysgol yn ei chwmmi a'r haul
yn disgleirio.

Bu'r Canon Andy Herrick a'r Parch Patron Bell yn
gwneud gwasanaethau yn y Sector Iau a diolch iddynt am
eu negeseuon pwrpasol. Cafodd disgyblion blynyddoedd
3 4 5 a 6 y cyfle i ymweld â Eglwys Sant Pedr a chael
taith o gwmpas Stori'r Pasg yng nghwmni'r Canon Andy



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 3
– Storiâu Cymraeg 1af Caitlin 2ail Cerys 3ydd Osian
Storiâu Saesneg 1af Danni 2ail Charlie 3ydd Callum.



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 5 –
Storiâu Cymraeg 1af Niah 2ail Ifan 3ydd Logan Storiâu
Saesneg 1af Tilly 2ail Tatiana 3ydd Olli.



Seremoni Cadeirio Ysgol Bro Pedr blwyddyn 6
– Storiâu Saesneg 1af Austin 2ail Daniel 3ydd Asa



Faye, Evie a Jess Ysgol Bro Pedr a dderbyniodd y
drydydd safle fel tîm yn Nhrawsgwlad Dyfed.
ac aelodau'r Eglwys. Diolch iddynt am ddod â stori'r Pasg
yn fyw i'r disgyblion ac am roi o'u hamser prin. Diolch
hefyd i dîm Bible Explorers am ddod i gyflwyno sioe
bypedau'r Pasg i ddisgyblion yr ysgol.

Daeth llwyddiant mawr i ddisgyblion yr ysgol yng
nghystadleuaeth Trawsgwlad Dyfed gyda phawb yn
rhedeg yn arbennig o dda a thîm merched blwyddyn 5 yn
dod yn y drydedd safle ac ennill medalau hyfryd iawn.
Diolch i Mr Roderick a Mr Davies am drefnu.

Bro Pedr - Hyn

Yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror, bu naw o ddisgyblion a dwy athrawes yn treulio wythnos yn Sweden fel rhan o gyfnwidiad Ysgol Bro Pedr gydag ysgol Furuhedsskolan yn Kalix. Ar ôl codi'n gynnar a theithio i Heathrow ac yna i Stockholm, roedd y criw yn falch o gyrraedd yn eu gwesty, y Wasa Park Hotel ar gyrion y ddinas.



Cawsant bryd o fwyd mewn bwyty lleol, ac er bod y Pizzas yn fwy na'r platiau, roedd pawb wedi mwynhau. Fel rhan o'u diwrnod llawn cyntaf yn Stockholm, aeth y grŵp yn gyntaf i ymweld â City Hall y ddinas, gan fynd ar daith o gwmpas yr adeilad eiconig. Yna, gwnaethant gerdded trwy'r ddinas ar y ffordd i'r bws cwch buasai'n eu cymryd i amgueddfa'r Vasa, llong a suddodd yn yr 1700au ond cafodd eu darganfod a'u hadfer yn yr 1960au, gan stopio i gael cinio ar y ffordd. Y lle nesaf i'r criw fod oedd y ganolfan siopa Gallefrikan ble oedd ganddynt gyfle i wneud ychydig o siopa. Wedi cael cyfle i fynd yn ôl i'r gwesty i gael seibiant bach, roeddent nôl allan i ganol y ddinas i gael swper ar eu noson olaf yn y ddinas yn T.G.I. Friday's.

Y bore ar ôl hynny, roedd hi'n amser pacio cyn teithio yn ôl i Faes Awyr Arlanda ar gyrion Stockholm i wneud y daith i fyny i Luleå ac yna Kalix. Gwnaeth y criw lanio ym maes awyr Luleå y prynhawn hwnnw, ble oeddent yn cael eu cwrdd gan ddau athro o Furuhedsskolan, Maria a Matts, a oedd yn mynd i'w gyrru i Kalix. Ar ôl bach o neidio yn yr eira, ymweliad cyflym â chastell wedi'i adeiladu o eira yn Luleå, ac ychydig o hanes am yr hen ran o Luleå, roeddent ar eu ffordd i Kalix. Y cynllun am y noson oedd mynd am bryd o fwyd gydag athrawon o'r ysgol a'r disgyblion oedd yn cynnal criw Llambled, i groesawu pawb a chael cyfle i gwrdd unwaith yn eto. Gwnaeth rhai o ddisgyblion Sweden ddod i'r tŷ ble roedd grŵp Llambled yn aros, er mwyn eu tywys i'r bwyty. Ar ôl noswaith hyfryd gyda bwyd ac adloniant, gwnaeth disgyblion o'r ddwy wlad ddychwelyd i Änglagården i gymdeithasu ym mhellach trwy chwarae cardiau a siarad. Daeth hyn yn draddodiad, a bob nos roeddent yno, roedd y criw yn mwynhau a chwerthin tan hwyr y nos.



Fel rhan o'u diwrnod cyntaf yn Kalix, cafodd y criw gyfle i fynd ar daith o gwmpas yr ysgol, gan weld dosbarthiadau a chael siarad gyda'r gwahanol athrawon. Wedi cinio yn ffretur yr ysgol, aethant i sglefrïo iâ. Roedd pawb yn mwynhau er eu gwahanol alluoedd, ond efallai bod rhai yn teimlo bach yn dost wedi'r hanner awr ar y iâ. Wedi hynny, gwnaethant ddychwelyd i Pänglågarden cyn mynd allan eto am noswaith gyda'u gwesteiwyr. Roedd gofyn codi'n gynnar ar fore dydd Gwener, er mwyn cyrraedd y Ffindir gyda digon o amser i ymweld ag Amgueddfa Arktikum cyn mynd ymlaen

i ymweld â Siôn Corn! Daeth grŵp o ddisgyblion gwahanol ar y daith yma gyda chriw Cymru, felly roedd y daith hir yn gyfle i wneud ffrindiau newydd gyda rhai o ddisgyblion blwyddyn yn iau yn Furuhedsskolan. Tra yn Lapland yn y Ffindir, gwnaeth rhai o'r criw weld coeden wedi'u haddurno gyda baneri gwahanol wledydd y byd, a sylwi bod baner bwysig ar goll! Yn lwcus roedd Gareth wedi dod â baner Cymru i Sweden, ac aethant ati i wirio'r goeden. Cafwyd noson arall gyda'r gwesteiwyr y noswaith hynny, ar ôl dychwelyd, ac wedyn yn ôl i Änglagården i gymdeithasu unwaith eto.

Er mwyn ymweld â'r Gwesty Iâ fyny ger Kiruna, rhyw 300km o Kalix, roedd angen codi'n gynt fyth! Yn lwcus gwnaeth pawb lwyddo i godi, ac erbyn hanner awr wedi saith roedd y bws ar ei ffordd. Cyn ymweld â'r Gwesty Iâ ei hunan, aeth y disgyblion am ymweliad i Kiruna, y dref gyfagos, i gael dysgu am eu hanes. Mae rhanau cyfan o Kiruna yn gorfod cael eu symud i ochr arall y dref, gan fod y mwynloddiau haearn yn mwynloddio oddi tanynt. Buont o gwmpas Neuadd y dref, ac i eglwys gyfagos, y ddau adeilad o fewn yr ardal a byddai'n cael ei effeithio yn y blynyddoedd nesaf. Nesaf oedd uchafbwynt y dydd, y Gwesty Iâ anhygoel. Cafwyd siawns i gerdded o gwmpas rhai o'r ystafelloedd wedi'u dylunio gan wahanol artistiaid, yr eglwys, ac yna cael diod yn y bar, allan o gwpanau wedi'u gwneud o iâ! Wedyn roedd yn amser dychwelyd i Kalix, ond nid cyn ymweld â fferm moose a chael pryd o fwyd tebyg iawn i gawl, ond gyda moose! Yn anffodus, roedd y moose wedi diflannu i'r coed, ond roedd dal cyfle i'r criw weld a bwydo carw. Treuliyd rhan fwyaf o ddiwrnod olaf y criw yn y ganolfan sgïo lleol yn cael y cyfle i drïo gwahanol weithgareddau yng nghwmni'r disgyblion Swedeg. Cafodd pawb siawns i fynd ar gefn snowmobile, ac aeth rhai i sgïo lawr rhiw, ac eraill i sgïo ar draws gwlad. Cynigwyd taith fer o gwmpas yr eglwys ger ble roeddent yn aros wedi iddynt ddychwelyd a chyn y pryd o fwyd ffarwelio'r noswaith hynny. Yn y bwyty cafwyd bwyd wedi'i ddilyn gan eiriau caredig gan Maria, athrawon Bro Pedr, Mrs Thomas a Mrs James, ac yna pawb yn canu cymysgedd o ganeuon Cymreig a Swedeg. Aeth y bobl ifanc yn ôl i Änglagården i fwynhau cwmni ei gilydd am y tro olaf. Buont yn chwarae cardiau, trafod, ac addewidion i fynd i ymweld â'i gilydd yn yr haf. Daeth diwrnod olaf y daith yn llawer rhy gyflym, ac wedi codi'n gynnar a phacio'r noswaith cynt, roedd y criw yn barod, os nad yn hapus, i gychwyn ar y siwrnai adre.

Adroddiad gan Megan ac Angharad bl.13.

Cafodd y disgyblion canlynol wahoddiad i ganu tu fewn a thu allan i siop fferyllfa Boots yn nhref Llanbed ar Fawrth 1af er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Stopiodd y glaw am ryw awr diolch byth, a hoffwn ddiolch i staff "Boots" am y gwahoddiad arbennig ac am y pice ar y maen a'r siocledu blasus. Blwyddyn 7: Anest Edward, Lowri Davies, Wiktorja Sliwka, Zoe Jarman Davies, Jessica Mc Donagh, Hafwen Davies, Chloe Jones, Lleucu Rees, Lois Jones, Sioned Davies, Nia Morgans, Megan Evans, Nia Jones, Shannon Walton, Liberty Yospa. Blwyddyn 8: Beca Roberts, Elan Jones, Hanna Davies, Beca Ann Jones, Beca Jenkins. Blwyddyn 9: Eleri James, Emma Herbert, Maddie Smith, Lucy Hill, Marina Dearden, Lisa Evans, Elin Davies. Blwyddyn 10: Sara Jarman, Grace Page, Gwenllian Jenkins.

Bu 5 o ddisgyblion daearyddiaeth o fl.12 allan yn gwneud gwaith maes ar fodiwl Gynladwyedd Dŵr yn ddiweddar gyda Dr Hywel Griffiths.



Eu gwaith am y dydd oedd mesur diamedr y cen ar gerrig beddau, yna mynd ati i blotio graff rhif diamedr y cen yn erbyn dyddiad y garreg fedd. Wedi creu'r graff, roeddent yn gallu defnyddio'r wybodaeth i gydnabod oedran clogfeini mewn bwa llifwaddod fel yr un ddramatig yng Nghwmystwyth, er mwyn dynodi pa ddyddiad oeddent wedi cael eu gorchuddio â dŵr llifogydd. Mae ymchwil o'r math hwn yn cael ei ddefnyddio gan Dr Hywel Griffiths a'i dîm ymchwil i greu cofnodion

Ysgol Bro Pedr



llifogydd mwy helaeth o'r 160 mlynedd diwethaf.

Mae'r disgyblion yn ddiolchgar iawn o'r profiad arbennig ac wedi dysgu llawer am y math hwn o ymchwil. Diolch i bawb oedd ynghlwm â threfnu'r dydd. Cynhaliwyd wythnos gyfan o ddigwyddiadau yn Llyfrgell y campws hŷn yn ddiweddar, er mwyn dathlu Diwrnod y Llyfr ar Fawrth 3ydd. Diolch yn fawr i Paloma o fl.12 am Gwis 'Dyfalur Dyfyniad' ar gyfer dydd Llun. Cwis caled iawn! Ar ddydd Mercher arweiniodd rhai disgyblion o flwyddyn 12 y sesiwn dylunio, lle bu disgyblion yn dylunio eu prif gymeriadau ar gyfer eu storïau. Huw o fl.13 oedd yn gyfrifol am y Cwis Llyfrau ar gyfer dydd Iau a Lucia o fl.12 oedd yn gyfrifol am y Cwis 'Dyfalur Cymeriad' ar gyfer dydd Gwener. Diolch i chi! Roedd yn wythnos lwyddiannus iawn.



Enillwyr y Cystadlaethau - Gwisgo fel eich hoff gymeriad a thynnu llun: Categori 1- Y llun fel y mae 1af - Sean Wood 5 Creuddyn, 2il - William Pitts 10 Non [yn absennol o'r llun]; 3ydd - Osian James-Young 3/4Dulas. Categori 2: Defnyddio'r llun i greu poster - 1af - Tia Decon-Jones 5 Creuddyn, 2il - Hywel Jones 5 Creuddyn, 3ydd - Ryan Parsons 4 Creuddyn /Evie McKay 5 Creuddyn.



Cynhaliwyd Noson Wobrwy Ysgol Bro Pedr ar nos Fercher, Mawrth 23ain. Y siaradwr gwadd oedd Mr David Williams, Cyn Bennaeth yr ysgol. Yn y llun mae -o'r chwith - Ceri Davies, Dirprwy; Gareth Wyn Jones, Prif fachgen; Tomos Rhys Jones, Dirprwy; Mrs Jane Wyn, Pennaeth; Rhian Haf Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Mr David Williams; Huw Howells, Dirprwy; Luned Jones, Prif ferch a Meinir Davies, Dirprwy.

Clwb Clonc

Ebrill 2016

£25 rhif 41:

Mrs Eifionwy Davies,
Cilmeri, Cwsychpant.

£20 rhif 32:

Hyw Davies, Or-nant,
Llanwnnen.

£15 rhif 62:

Lyn Davies, Madrin,
Heol Fictoria, Aberaeron.

£10 rhif 317:

Mrs Bethan Jones,

Treweryn, Cwmann.

£10 rhif 426:

James Rhodes,
4 Bryndulais, Llanllwni.

£10 rhif 29 :

Rod Davies,
Croesmaen,
Llanfihangel-ar-Arth.

£5 rhif 300:

Mrs Llinos Jones,
Araul, Heol Caerfyrddin,
Cwmann.

Llanwnnen



Tîm hoci yr ysgol a fuodd yn cystadlu yng nghystadleuaeth hoci y rhanbarth yn ddiweddar.



Plant Ysgol Llanwnnen ar Ddiwrnod y Llyfr yn derbyn rhodd o lyfr yr un i nodi'r diwrnod.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 1 Chwefror cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Llanwnnen ac yn dilyn cyfarfod busnes byr, cafwyd noson ddifys iawn yng nghwmni Mrs. Pamela Davies a'i gwniadwaith cain. Rhyfeddwyd at ei thalent yn creu'r dolis clwt tlysaf erioed a hynny gan amlaf o ddarnau o ddefnydd sbâr. Roedd y doliau o bob lliw a llun ac roedd ei doliau clwt mewn gwisg Gymreig yn werth eu gweld. Mae'n amlwg ei bod hi'n wniadwraig o fri gan ei bod hefyd yn creu cathod a thedis bach o ffelt i blant ifanc, yn gwneud bagiau i gadw lafant a llyfrnodau gan eu haddurno â brodwaith cymhleth ac yn ogystal yn gwneud cwiltiau gan ddefnyddio clytwaith. Gwnaeth Pamela hefyd arddangos tegau ac offer pren i blant a wneir gan ei gŵr â llaw.

Nos Lun, 7 Mawrth bu'r aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gael pryd o gawl blasus a phwdin cartref i ddilyn yng Nghaffi'r Sosban yn Llanbed. Cafwyd noson ddifys gyda phawb yn sgwrsio ac yn mwynhau cwmni ei gilydd mewn awyrgylch hamddenol. Gwnaed

y diolchiadau gan Avril Jones, ein Llywydd. Hi, hefyd a enillodd y gystadleuaeth, sef dysgl i ddal cawl. Bydd y cyfarfod nesaf ar 4 Ebrill.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Rhian a Dai, Cwrt y Brodyr ar enedigaeth merch fach, Alaw Dafydd. Chwaer fach i Lisa ac wyres fach arall i Elizabeth a Dilwyn Thomas, Pantyffynnon.

Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Alaw Jones, Blaenwaun-ganol ar ei llwyddiant mewn dau faes gwahanol yn ddiweddar. Enillodd Alaw y wobr gyntaf yn yr Unawd i Flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed a chipiodd yr ail wobr yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mhonrhydfendigaid wythnos yn ddiweddarach. Yn ystod yr un cyfnod, daeth Alaw'n fuddugol yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Cylch yn Llanbed gan ennill y ras ar gyfer merched Blynnyddoedd 5 a 6. Llongyfarchiadau mawr i ti a dal ati!

Carnifal Cwmann

Cynhelir Cyfarfodydd nesaf o Garnifal Cwmann ar Nos Wener Ebrill 29ain a Nos Iau Mai 26ain am 7.30y.h. yng Nghanolfan y Pentref (croeso i aelodau newydd).

Yna bydd diwrnod y carnifal ar Ddydd Sadwrn, Mai 28ain yng Nghae'r Pentref.

Croeso cynnes i bawb i ymuno yn yr hwyl.

Eisteddfod Capel y Groes



Canu dan 8 [Cyf] 1. Erin Mair, Drefach 2. Catrin Medi, Llanwnnen 3. Noa Jac, Drefach. **Adrodd dan 8 [Cyf]** 1. Fflur Morgan, Drefach 2. Jac Rees, Cwmsychpant 3. Mari Rees, Cwmsychpant.



Canu ac Adrodd 8 oed tan oed gadael ysgol ysgol gynradd [Cyf] 1. Ifan Meredith, Llambod 2. Elen Morgan, Drefach 3. Swyn Tomos, Pencarreg.



Unawd dan 6 [Agored] 1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Mari Williams, Tregaron 3. Trystan Evans, Pumsaint a Fflur McConnell, Aberaeron. **Adrodd dan 6** – 1. Mari 2. Gwennan 2. Fflur.



Unawd 6 – 8 [Agored] 1. Ifan Williams, Tregaron 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd 3. Beca Curry, Capel Dewi. **Adrodd 6 – 8** 1. Ifan 2. Beca 3. Ela.



Unawd ar Offeryn Cerdd gynnwys y piano dan 12 oed – 1. Nia Beca Jones, Llanwnnen.

Diwrnod y Llyfr



Dathlu Diwrnod y Llyfr yn Ysgol Bro Pedr gyda chystadleuaeth gwisgo fyny fel cymeriad o lyfr. Yn y llun mae'r enillwyr.



Plant dosbarth Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanwnnen yn dathlu ym myd y Tylwyth Teg.

Arddangosfa Cwiltiau



Cwilt o waith Sarah Lewis o Aberdar a werthwyd i Jen Jones gan ddynes o Dregaron.

Tri o'r cwiltiau niferus a oedd yn yr arddangosfa.



Rhai o fuddugwyr rhanbarth yr Urdd o Gylch Llambed



Grŵp Llefaru Bl. 7 – 9 - Ysgol Bro Pedr 2il



Parti Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambed 3ydd



Ymgom Bl. 10 a dan 19 oed -
Martha a Cadi, Ysgol Bro Pedr 1af.



Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6
- Gruffydd Llwyd Dafydd, Ysgol Y
Dderi 3ydd.



Côr Bl. 9 ac Iau [Adran] = Aelwyd Llambed 1af



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [ysgolion hyd at 50] - Ysgol Cwrtnewydd 1af.



Grŵp Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 1af



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau [D]
– Kyna Logan, Ysgol Bro Pedr 2il.



Unawd Merched – Bl. 7 – 9 -
Sioned Fflur Davies, Ysgol Bro Pedr
3ydd.



Unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed
- Emyr Davies, Ysgol Bro Pedr 2il



Unawd Cerdd Dant Bl. 7 – 9 -
Beca Jones, Ysgol Bro Pedr 2il.



Cerddorfa Bl. 6 ac Iau - Ysgol Bro Pedr 3ydd



Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 2il

Cwmann

Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd hapus i Meinir Jones, Hendai a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Dathlodd Gwen Davies, 3 Nantglyn ben-blwydd arbennig hefyd yn ystod y mis. Dymuniadau da i chwi eich dwy.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Caryl Davies, Brynteg ar ei dyweddïad â Gary Davies o Lanbadarn Fawr. Pob dymuniad da.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Jenny Thomas a'r teulu, Ardwyn a Carol Doughty a'r teulu, Caris yn dilyn marwolaeth eu tad Mr Williams, Y Fenni, Stryd Newydd.

Danfonwn ein cydymdeimlad gyda theulu'r diweddar Adeline Williams, Bryneiddig, Cwmann a fu farw dros y Pasg.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Verina Roberts, Gelli Aur yn dilyn ei salwch ac i bawb arall sydd wedi bod yn anhwylus.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Beca a Llion Russell, Coedeiddig ar enedigaeth Efa Mair. Chwaer fach i Aron. Dymuniadau gorau

Anrhydedd Elin

Dymuna trigolion Cwmann a'r fro longyfarch Elin Williams, Y Garn ar ennill Medal John a Ceridwen Hughes am ei gwaith gwirfoddol gyda'r Urdd, Ieuencid a'r Gymuned eang. Cynhelir seremoni i'w anrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fflint dechrau mis Mehefin.

Clwb 225 Mis Chwefror

1. Canon a Mrs Wynzie Richards, Mesteify, Cwmann, 15. 2. Mr a Mrs Evans, Hafdre, Cwmann, 96. 3. Jeff Evans, Llyscoed, Cwmann, 63. 4. Helena Gregson, Werna, Cwmann, 76. 5. Eric Williams, Y Fedw, Cwmann, 10. 6. Mrs Muriel Davies, 2 Nantglyn, Cwmann, 86. 7. Wyn a Meinir Davies, Hendai, Cwmann, 179. 8. Preswylwyr, Brynbedw, Cwmann, 66. 9. Ernie Randell, Blaencwm, Cwmann, 225. 10. Von Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 12.

Clwb 125 Mis Mawrth

1. Mrs M. Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70. 2. Stan Evans, Coed-y-Waun, Parc-y-rhos, Cwmann, 107. 3. Mrs V. James, Caeralaw, Cwmann, 126. 4. Mrs L. Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 98. 5. Mr T. Hall, Glanaber, Cwmann, 75. 6. Mrs E. Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68. 7. Nerys Douch, Trefin, Cwmann, 27.

Pencarreg

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Cerys Angharad ar ei llwyddiant yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar – Cylch Llambod:-

Llefau Bl.3 a 4 – 1af; Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4 – 1af; Unawd Bl.3 a 4 – 2il;

Deuawd Bl.6 ac Iau (gydag Alwena Owen, Llanllwni) - 2il Rhanbarth Ceredigion:

Unawd Telyn Bl.6 ac Iau 3ydd; Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4 – 1af.

Pob hwyl i ti Cerys wrth i ti gynrychioli Ceredigion yn y Fflint ym mis Mai eleni.

Hoffai Cerys Angharad ddiolch i bawb fu'n ei hyfforddi i gyrraedd y safon uchel yma.

Gorsgoch

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Lauren Jones, Awel-y-Gors ar gael ei dewis yn Ddirprwy C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn 2016 – 2017.

Prawf Gyrru

Yn ddiweddar pasiodd Iwan Evans, Parc-y-rhos ei brawf gyrru. Llongyfarchiadau a chymer ofal.

Cynghrair Ward Llanwenog.

Ar ddydd Sadwrn Ebrill 9fed bydd cyfle i bobl o bob man ddod i Neuadd yr Hafod Gorsgoch rhwng 10 y bore a 3 y prynhawn gyda unrhyw luniau er mwyn eu rhoi ar gof a chadw. Bydd Hazel Thomas, Penpompren, Drefach yno yn eich disgwyl er mwyn sganio eich lluniau a'u gosod ar wefan Casgliad y Werin. Byddwch yn gallu cael y lluniau gwreiddiol nôl yn syth. Gall y ffotograffau fod yn luniau o gymdeithasau gwahanol, teuluol, arteffactau, dogfennau ac yn y blaen. Os ydy'r llun yn hen a bod bobl ynddo nad ydych yn eu hadnabod yna does dim gwahaniaeth achos unwaith bydd y ffotograff ar y we bydd unrhyw un yn gallu ei weld ac efallai bydd rhywun arall yn gallu enwi y cymeriadau. Cawsom rhagflas o'r wefan gan Hazel nos Fercher Mawrth 23ain yng Nghefnhafod Gorsgoch ac mae'n ddiddorol tu hwnt. Ewch chithau ar y wefan i gael rhagflas www.casgliadywerin.cymru ac yna twriwch trwy'r tŷ am luniau.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Darlith Goffa Cliff Tucker

Cwm Alltcaf a Thraeth y Pigyn

Nos Iau, 17 Mawrth 2016, cynhaliwyd Darlith Goffa Cliff Tucker ar Gampws Llambod, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Y darlithydd eleni oedd y Prifardd, y Prif Lenor a'r ysgolhaig, yr Athro Mererid Hopwood. Dewisodd destun gwyb ar gyfer ei darlith, sef T. Llew Jones, 'bardd y plant bach a'r plant mawr'. Cafodd y gynulleidfa luosog ei chyfareddu'n llwyr wrth glywed am gynnyrch barddol T. Llew Jones (1915–2009), ei gerddi eisteddfodol, ei gerddi plant, a cherddi o'i gyfrol i oedolion Sŵn y Malu (1967).

Yn unig blentyn nes i'w frawd gael ei eni ddeng mlynedd ar ei ôl, canodd T. Llew i'r aflonyddwch a ddeilliodd o'i ofn a'i unigrwydd – ofn y nos, ofn sŵn y gwynt, ofn y gelyn llechwraidd, y pethau aflonydd ac annisgwyl. Roedd ynddo awydd taer am gael bod yn rhan o rywbeth mwy, am gwmnïaeth gynnes teulu a ffrind a chydabod, ac am gyfeillgarwch cynulleidfa a'r cyfle i rannu â hi. Mor aml mae'n gwahodd y gwrandawr i ddod gydag ef ac i fod yn gwmni iddo wrth iddo wynebu ar yr anhysbys. Soniwyd am ei gerddi plant yn ogystal, a'i gyfrol Cerddi Gwlad ac Ysgol (1957 & 1976). Gallech fod wedi clywed pin yn syrthio pan adroddodd y darlithydd y cerddi 'Fuoach chi yng Nghwm Alltcaf?' a 'Ddoi di gen i i Draeth y Pigyn?' yn ei dull unigryw ei hunan. Cafodd y ddarlith gymeradwyaeth hir a gwresog gan y gynulleidfa, a phawb wedi cael noson i'w chofio.

Pleser arbennig oedd cael cwmni aelodau o deulu T. Llew Jones yn y gynulleidfa. Cadeiriwyd y noson gan Lywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones, a thalwyd y diolchiadau gan y Parchedig Athro D. Densil Morgan. Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans, Ysgol y Gymraeg a Dwyieithrwydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cadwch nos Wener 10 Mawrth 2017 yn rhydd i glywed Huw Edwards yn traddodi Darlith Goffa Cliff Tucker 2017. Bwciwch eich sedd nawr!



Noswaith Bwyd a Gwin y Gwanwyn

Nos Sadwrn, Ebrill 16eg

Dewch i dathlu dechreuad y gwanwyn gyda ni yma yn gwesty'r Falcondale lle fydd yna bwydlen 6 cwrs yn llawn o cynhwysion Cymraeg lleol.

Ynghlwm a'r bwydlen rydym wedi dewis 4 gwydred o gwin gwahanol i ehangu blas y cynhwysion. Cyfle i trio gwin o gwledydd nad ydynt yn cyfarwydd ac o tirwedd wahanol.

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk

Llanybydder



Swyddogion Côr Lleisiau'r Werin yn cyflwyno sic o £460 i Angharad James a'i merch fach Betsan Fflur sef arian tuag at Uned Arbenigol Babanod Ysbytai Glangwili a Singleton. Codwyd yr arian mewn gwasanaeth carolau a gynhaliwyd gan y côr ynghyd â Chôr Meibion Cwmann yn Eglwys Llanybydder.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Gareth a Tracy o Bencader ar enedigaeth merch fach Gwenno Megan ym mis Ionawr, wyres i Gwendoline Jones o Lanybydder a gor wyres i Ray Jenkins o Lanybydder.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus i Ieuan Jones, Tegfryn, sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed y mis hwn. Mwynhewch eich diwrnod.

Carnifal

Bydd Dawns Dewis Swyddogion y Carnifal ar y 23ain o Ebrill yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 6.00yh. Byddwn yn dewis Brenhines y Carnifal, morwynion, tywysog a brenhines y tylwyth teg.

Bydd 'It's a Knockout' ar Ddydd Sul Gŵyl y Banc 29ain o Fai am 1yp yng nghae rygbi Llanybydder. £10 am dîm o 4, dros 16 oed, £30 a tarian i'r enillwyr. Bydd hanner yr elw yn mynd tuag at 'Vision aid Overseas' lle fydd Rhian Mansel o Lanllwni yn mynd i gerdded mynydd Kilimanjaro.

Bydd yna noson gyda Kiri-Lee yn canu yng Nghlwb Rygbi Llanybydder ar ôl yr Its a knockout i ddechrau am 7.00yh.

Wythnos carnifal: Dydd Sul 19eg o Fehefin - Gymanfa Ganu am

6.30yh yng nghapel Aberduar;

Dydd Llun 20fed o Fehefin - Helfa drysor car am 6.00yh i ddechrau yn y clwb rygbi. £5 y car; Dydd Mawrth 21ain o Fehefin - Bingo 8yh yn y clwb; Dydd Mercher 22ain o Fehefin - Helfa drysor cerdded yn gadael Tanygraig am 6.30yh; Dydd Gwener 24ain o Fehefin - Cwis yn y Llew Du am 7yh. £10 am dimoedd o 4.

Ar Ddydd Sadwrn 25ain o Fehefin byddwn yn cynnal ein Carnifal blynyddol yng nghae rygbi Llanybydder i ddechrau am 1.00yp. Thema gwisgo lan yw Hollywood.

Diolch

Dymuna Betty Jones, Gernant estyn gair o ddiolch i'm teulu am bob gofal a charedigrwyd yn dilyn ei llawdriniaeth ac hefyd i'w chymdogion ffyddlon ym mhentref Ty Mawr ynghyd â ffrindiau am bopeth a dderbyniodd. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder

Cynhelir Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Ffestri Aberduar am 7.00y.h. ar nos Wener, Mai 13eg. Agorir gan Mrs Pam Burke. Croeso cynnes i bawb.



Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Blynyddol Aberduar ar nos Fercher, 16eg Mawrth 2016. Daeth llond y festri ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r noson a brofodd i fod fel arfer yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan ein Gweinidog, Y Parch Jill Tomos a groesawodd bawb yn gynnes iawn i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr Eglwys.

Agorwyd y noson yn swyddogol gan un o blant yr eglwys sef Dewi Davies, Glynteg [Dewi, Pantygogledd, Llanllwni gynt].

Yn ei anerchiad ddiddorol cyfeiriodd at ei gysylltiad agos â'r Eglwys yn Aberduar.

Soniodd Dewi pan oedd yn blentyn bod ef yn cerdded o Pantygogledd bob dydd Sul i fynychu'r Ysgol Sul yn Aberduar.

Mae ef yn Ddiacon ac yn aelod ffyddlon yn y Capel ac yn weithgar i bob achos sydd i wneud yn y Capel. Hefyd wedi bod yn dysgu llawer o blant yn yr ysgol Sul am lawer o flynyddoedd.

Cafwyd noson hapus a dymunol dros ben ac elw ariannol sylweddol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd.

Diolch i Dewi am ei rodd hael ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson.



Tîm dan 16 oed a chwaraeodd yn nhwrnamaint yn Llambled 24/01/16 gan ennill 3 gêm, colli 1 a chyfartal 1. Da iawn ferched a bechgyn.

Clwb Hoci Llanybydder

Mae tymor hoci 2015/16 wedi bod yn un rhyfedd gyda ond tair gêm gynghrair wedi'u chwarae yn unig rhwng Hydref a Rhagfyr. Roedd nifer o'r gêmiau wedi'u gohirio am wahanol resymau. Colli oedd hanes y tîm yn y ddwy gêm gyntaf yn Hydref 2015, 1-0 yn erbyn Bow Street gyda Claire Richards yn cael Chwaraewraig y gêm ac yna 2-1 yn erbyn Castell Newydd Emlyn gyda Sioned Williams yn derbyn Chwaraewraig y gêm. Yna daeth llwyddiant yn erbyn Tregaron ym mis Tachwedd gan ennill 8-1 gyda Caryl Rees yn sgorio 4 gôl, Hannah Thomas 2, Rhian Thomas 1 a Carys Wilkins 1. Chwaraewraig y gêm oedd Carys Wilkins a Lleucu Ifans yn derbyn Chwaraewraig dan 18 oed. Tawel hefyd oedd hanes mis Ionawr ond chwaraewyd tair gêm ym mis Chwefror. Ennill yr un gyntaf yn erbyn Bow Street 3-1 a cholli yr ail 3-2 yn erbyn Llandysul gyda Chwaraewraig y gêm yn mynd i Elen Powell yn y gêm gyntaf a Caryl Rees yn yr ail. Lleucu Ifans gafodd Chwaraewraig dan 18 oed yn y ddwy gêm. Roedd trydedd gêm mis Chwefror yn erbyn Tregaron ac ennill 11-0 oedd hanes y tîm gyda Caryl Rees a Rhian Thomas yn sgorio 3 yr un, Gemma Potter 2, Amanda Russell 1, Laura Jones 1 a Hedydd Wilson 1. Rhian Thomas dderbyniodd Chwaraewraig y gêm honno. Prysuodd pethau yn y mis diwethaf gyda nifer o gêmiau ar ôl i'w hail-drefnu gan achosi pen tost i'n Capten Carys Wilkins ac i'n hysgrifenyddes Laura Jones. Gêm o ddwy hanner yn wir a welwyd yn erbyn Castell Newydd Emlyn ar ddechrau Mawrth wrth i'r tîm golli o 3-0 ar yr hanner ond yna dod yn ôl i gael canlyniad cyfartal 4-4 yn y diwedd. Derbyniodd Elen Powell Chwaraewraig y gêm a Lleucu Ifans dan 18 oed. Yn anffodus doedd dim modd brwydro yn ôl yn y gêm oddi cartref yn erbyn Abergwaun pan gollwyd o 4-1 gyda Lleucu yn derbyn dan 18 eto a Caryl Rees gafodd Chwaraewraig y gêm. Yng ngêm olaf mis Mawrth braf oedd gweld rhai o ferched y tîm ieuentid yn chwarae lan yn y tîm hyn yn erbyn Crymych. Yn ei gêm gyntaf i'r tîm hyn sgoriodd Naomi Davies gôl a derbyniodd chwaraewraig dan 18 oed hefyd. Y sgorwyr eraill oedd Claire Richards, Elen Powell a dwy i Hedydd Wilson gyda'r canlyniad o ennill 5-2 yn y diwedd. Chwaraewraig y gêm oedd Carys Wilkins. Yng Nghwpan Her Hoci Cymru aeth y tîm drwyddo i'r rownd gyn-derfynol gan golli 5-1 yn erbyn Castell Newydd Emlyn. Pob lwc i'r tîm gyda'r ddwy gêm gynghrair sydd ar ôl gan obeithio am lwyddiant ar ddiwedd tymor hir a rhwystredig i ddweud y lleiaf!



Bwrlwm y Berwdŵr

Blas ffres, tymhorol y Gwanwyn sydd yn y gegin y mis hwn. Gyda phoblogrwydd llysiau gwyrdd yn cynhyddu, dyma benderfynu ar bŵer y berwdŵr fel thema y tro yma.

Efallai eich bod yn ddigon ffodus i fedru gynaeafu brew dŵr o'r nant gerllaw, neu wrth gwrs, ei brynu mewn clustog caeedig wedi ei olchi'n barod, - mae ar gael yn eang.

Mae yna nodweddion llesol i'r dail sy'n llawn mwynau a fiteminau. Owns am owns, mae gan y berwdŵr mwy o Fitamin C nag sydd mewn orennau, mwy o haearn na sbigoglys, a fwy o galsiwm na llaeth!

Mae'n gynhwysyn hyblyg; medrwech ei fwynhau'n amrwd mewn salad, neu wedi ei goginio mewn rysetiau. Mwynhewch Mis Ebrill, mis y berwdŵr.

Pob Hwyl,
Gareth

Eog a saws berwdŵr

- 2 filed Samwn
- Sest a sudd 1 lemwn
- 1 llond llwy bwdin puprennau grawn cymysg. (mixed peppercorns)
- 1 pecyn berwdŵr
- 1 pot crème fraîche
- Ychydig gennin sifi
- Halen a phupur



Dull

1. Gosodwch y ffiledau samwn mewn padell ffrio, y lemwn, puprennau grawn cymysg, a dim ond digon o ddŵr i braidd orchuddio'r ffiledau.
2. Dewch a'r dŵr i'r brew, ac yna'i adael i oeri.
3. Hylifwch y berw dŵr, crème fraîche a'r cennin sifi. Blaswch â phupur a halen, a gweinwch y saws gyda'r samwn.

Sgons caws a berwdŵr

- 100 gm fflŵr codi
- 100 gm fflŵr codi cyflawn (wholemeal)
- 100 gm menyn
- 125 gm caws wedi'i gratio
- 1 pecyn berwdŵr, wedi ei dorri'n fân.
- Ychydig halen




Dull

1. Hidlwch y fflŵr a'r halen, ac yna rhwbiwch y menyn a'r fflŵr gyda'i gilydd.
2. Ychwanegwch y caws a'r berwdŵr, a digon o ddŵr i greu toes ysgafn.
3. Rholiwch y toes, a thorri'r sgons
4. Rhowch ar dun pobi, ac i'r ffwrn am 15 munud ar wres 200 C, Nwy 6
5. Gweinwch â menyn.

Pitsa berwdŵr a ricotta

- 2 waelod pitsa parod
- 500 gm tomatos wedi'u haenu.
- 1 winwsyn wedi'i haenu
- 1 pecyn berwdŵr
- 100gm caws ricotta
- 100 gm caws mozzarella
- Ychydig olewydd gwyrdd wedi'u haenu
- 100 gm tomatos ceirios wedi'u hanneru.



Dull

1. Trowch y ffwrn ymlaen i wres 220 C, Nwy 7
2. Gorchuddiwch waelod y 2 bitsa â thomatos.
3. Ffriwch y winwsyn yn ysgafn, a'u rhoi ar y pitsas, yna'r berwdŵr, a'r caws ricotta fesul llwyaid.
4. Ychwanegwch yr olewydd a caws mozzarella, ac yna rhoi'r hanneri tomatos bach yn eu lle.
5. Pobwch am 20 – 25 munud ac addurnwch â pherlysiau ffres.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon*

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau yn Clwb Golff y Cilgwyn ar Fawrth 4ydd i ddathlu Gŵyl ein Nawdd Sant. Yna cawsom gawl blasus a phwdin afalau, te a phice bach cyn dychwelyd am adref a phawb wedi mwynhau'r wledd a'r gwmniaeth. Cydymdeimlwyd â Sue Wellings yn ei phroffedigaeth ar farwolaeth ei gŵr a dymunwyd adferiad buan i nifer o aelodau a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch wresog am y wledd a'r croeso cynnes gan Sally Davies.

Enillwyd y Raffl gan Alunda Jones, Gwen Lewis, Sally Davies, Maisie Morgans, Gill Smith ac Ethel McLoughlin.

Merched y Wawr Y Dderi

Ymwelodd rhai o aelodau â Changen Llwynpiod a Bronant ar Fawrth 3ydd i ddathlu Gŵyl Ddewi ein Nawdd Sant yn Neuadd Llangeitho. Yno cawsom groeso cynnes, cawl a phwdin ac anerchiad diddorol yn llawn hiwmor gan y Bon. Lyn Ebenezer. Roedd pawb wedi mwynhau noson o gymdeithasu. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i gangen Llwynpiod am y gwahoddiad ac am noson hyfryd gan Gwyneth Jones.

Ar Farwrth 14eg ar wahoddiad Cangen Llanbedr dyma rhai o'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi eto, yn Festri Shiloh. Yma eto roedd Cawl a phwdin ar y fwydlen a'r byrddau wedi wedi eu haddurno yn brydferth iawn yn lliwiau'r Mudiad. I gloriannu y noson cawsom ddetholiad o ganeuon gan Gôr Corisma dan arweiniad Carys Lewis. Dyma ganu bendigedig a noson arbennig a fydd yn fyw yn y cof am hydoedd. Rhoddwyd pleidlais o ddiolchgarwch am holl weithgaredd y noson gan Noleen, Gwyneth Jones ac Ann Morgan.

Ar Fawrth 16eg dyma'r Dderi yn dathlu Gŵyl Ddewi am y tro olaf eleni wrth ein hunain yn y Pantri. Croesawyd pawb gan y llywydd Gwyneth Jones. Yma, hefyd cawsom wledd fendigedig o gawl ac amrywiaeth o bwdin mewn awyrgylch hyfryd a theimladwy. I ddiweddu y noson cawsom baned a bara brith, am amrywiaeth eang o ffrwythau. Traddodwyd y fendith gan Irene Lewis a rhoddwyd pleidlais o ddiolch am noson gwerth chweil gan Deborah Jones. Rhoddwyd y Raffl gan Margaret Davies-Jones a Mair Morgan ac fe'u henillwyd gan Ann Davies a Gwyneth Jones.

Bydd y cyfrafod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar Ebrill 20fed am 7.00y.h pryd y disgwylir y Bon. Gwynfor Lewis ac Ifor Williams i sôn am eu taith. Croeso cynnes i ymwelwyr.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mrs Sue Wellings, Forest Hall yn ei phroffedigaeth ar farwolaeth ei gŵr.

Adferiad

Dymunir adferiad buan i bawb a fu mewn ysbyty neu yn sâl adref. Brysiwch wella bawb.

Ysgol Y Dderi

Diolch i Lee a'i griw am gynnal sesiynau pêl fasged ar safle'r ysgol. Mae'r plant wrth eu bodd yn cael dysgu a datblygu sgiliau pêl fasged, a'r uchafbwynt hyd yn hyn oedd cael sesiwn pêl fasged cadair olwyn gyda James. Diolch yn fawr iawn iddynt.

Mi fydd Ysgol Y Dderi yn "Dathlu'r Deugain" yn ystod yr wythnos gyntaf yng Ngorffennaf eleni, a dechreuwyd ar y gwaith o ysgrifennu sgript ar gyfer sioe y plant gyda rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 a'r Prifardd Dylan Iorwerth. Braint ac anrhydedd oedd i'r plant cael y cyfle i gwrdd ac i gydweithio gydag ef. Edrychwn ymlaen at y perfformiad gorffenedig yn ystod tymor yr haf yn Theatr Felinfach.

Diolch i Canon Andy am ddod i fewn i'r ysgol i gynnal gwasanaeth gyda phlant yr ysgol. Rydym bob amser yn falch iawn i'w groesawu er mwyn clywed ei negeseuon pwysig a chael cyfle i ganu i gyfeiliant gitâr.

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol. Diolch i Mrs Delyth Lloyd-Jones, Ystrad Dewi am feirniadu. Llongyfarchiadau mawr i dŷ Aeron am ddod yn fuddugol, i Teifi am ddod yn ail, ac i Dulas am ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Llwyd Dafydd am ennill y Gadair, a gyflwynwyd gan Mr Roger Hartwell, am ennill tarian am y nifer uchaf o bwyntiau yng Nghyfnod Allweddol 2, ac am ennill tlws y llefarwr mwyaf addawol. Llongyfarchiadau i Lili Jewell am ennill y darian am y nifer uchaf o bwyntiau yn y Cyfnod Sylfaen, ac i Mabli Cutler am ennill tlws y gantores mwyaf addawol.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff, rhieni a ffrindiau am eu gwaith diflino wrth drefnu yr Eisteddfod Gylch eleni. Diolch i Mrs Ann Davies am fod yn lywydd y dydd ac am yr holl gacennau a ddaeth i law ar gyfer ein caffi. Daeth llwyddiant mawr i'n plant ni hefyd; Llefaru Blwyddyn 2 ac iau, Beca Ebenezer 3ydd; Llefaru Blwyddyn 3 a 4 (D), Jemimah Norton 1af, Unawd Blwyddyn 3 a 4, Betrys Llwyd Dafydd 1af; Llefaru Blwyddyn 3 a 4, Betrys Llwyd Dafydd 2il; Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau, Betrys Llwyd Dafydd 1af; Cerdd Dant

Llangybi

Dafydd 3ydd; Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6, Gruffydd Llwyd Dafydd 1af; Unawd Blwyddyn 5 a 6, Gruffydd Llwyd Dafydd 2il; Llefaru blwyddyn 5 a 6, Guffydd Llwyd Dafydd 2il; Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau, Gruffydd Llwyd Dafydd 3ydd; Deuawd Blwyddyn 5 a 6, Gruffydd a Betrys Llwyd Dafydd 1af. Diwrnod i'r brenin.

Daeth cwmni "Zoolab" i'r Cyfnod Sylfaen fel rhan o'u thema "Gwingo ac ymlusgo". Cafwyd y cyfle i ddal neidr, llygoden ffyrnig, crwban, chwilen ddu, tarantiwla a malwod tir enfawr! Roedd gennym lawer o blant dewr iawn! Profiad dysgu cyfoethog iawn.

Ar nos Iau, 10fed o Fawrth, cynhaliwyd noson o Gawl a Chân yn neuadd yr ysgol. Cyfle i'n rhieni a'r gymuned fwynhau perfformiadau yr Eisteddfod Ysgol a'r Eisteddfod Gylch. Roedd y staff addysgu yn gyfrifol am weini lluniaeth blasus o gawl, bara brith a phicau bach i'r gynulleidfa o dros gant yn ystod hanner amser, a diolch i bawb a gyfrannodd i'r noson.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant fu'n cymryd rhan yng nghystadlaeth traws-gwlad Cylch Llanbed yn ddiweddar.

Daeth Mr Wilson o Techniquet i ddysgu blwyddyn 3 a 4 am Gylchedau Trydanol fel rhan o'u thema "Dotio ar y robot". Cawsom gyflwyniad ymarferol gwyh a gweithdai campus i ddilyn. Roedd pawb wedi elwa'n fawr o'r profiad.

Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Llwyd Dafydd, Jemimah Norton a Betrys Llwyd Dafydd ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Bontrhydfendigaid yn ddiweddar. Daeth Gruffydd yn 3ydd yn yr Unawd Cerdd Dant, Blwyddyn 5 a 6; Jemimah yn 2il yn y Llefaru i ddysgwyr, Blwyddyn 3 a 4; Betrys yn 3ydd yn yr Alaw Werin blwyddyn 6 ac iau, ac yn 1af yn yr Unawd Blwyddyn 3 a 4. Daeth Gruffydd a Betrys yn gyntaf yn ddeuawd hefyd! Pob lwc iddynt wrth gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint.

Croesawyd disgyblion blwyddyn 3 i'r Eglwys yn Llangybi gan Mrs Janet Farrow a Mrs Arnold-Davies i greu ardd Pasg. Casglwyd mwsogl, brigau, graean, potiau iogwrt a thywod er mwyn creu arddangosfa i'r gymuned gyfan fwynhau. Diolch i Mrs Arnold Davies am ddod i gynnal gwasanaeth yn yr ysgol hefyd, yn sôn am neges y Pasg.

Daeth yr hanesydd a'r awdur lleol Mr Peter Cornelious i fewn i flwyddyn 5 a 6, fel rhan o'u thema "Blits". Mae Mr Cornelious wedi cyhoeddi llyfr o'r enw "Poppy" a bu'n darllen a thrafod cynnwys y llyfr cyn cynnal gweithdy ysgrifennu llythyr at un o'r prif gymeriadau yn y

llyfr. Cawsom brynhawn difyr iawn yn ei gwmni, ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn at gyfle i'w groesawu nôl i'r ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Rhian ar ei dyweddïad ag Aled ar Chwefror 29ain 2016, a llongyfarchiadau ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeugain oed ar Fawrth y cyntaf. Wythnos brysur iawn ym mywyd Miss Rhian!!

Croeso nôl i Miss Bethan yn dilyn ei chyfnod mamolaeth wedi genedigaeth Tomos Edwin. Rydym yn falch iawn i'w chroesawu hi nôl.

Trist iawn yw ffarwelio â Mrs Kate Foulkes-Roberts a fydd yn ein gadael ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae hi a'i theulu yn adleoli i Sir Benfro a dymunwn yn dda iawn iddi.

Rydym yn falch ac yn ddiolchgar am ei chyfraniad enfawr ar hyd y blynyddoedd, ac mi fyddwn yn gweld ei heisiau yn fawr iawn.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol mewn dau bencampwriaeth golff, enillodd Dion Teilo o flwyddyn 3, yr hawl i gystadlu mewn pencampwriaeth yn Sbaen rhwng yr 22ain -28ain o Hydref!!



Ar ddydd Sadwrn 19eg o Fawrth, cynhaliwyd Twrnament Golff Iau Ewrop yng Nghaer. Enillodd Dion y gystadlaeth 9 twll gyda sgôr o 38. Ar ddydd Sul yr 20fed o Fawrth, cynhaliwyd Twrnament Golff Iau Ewrop ym Mhrestatyn. Enillodd Dion y gystadlaeth 11 twll gyda sgôr o 44. Dion oedd y cystadleuydd â'r nifer fwyaf o bwyntiau ar draws pob categori oedran ac felly yn ennill lle ym Mhencampwriaeth Rhyngwladol "Ras i Sbaen 2016". Tipyn o gamp wir!

Hoffwn fel teulu Mathew Rowcliffe, Trysor, Pencader, ddiolch o galon i bawb yn ardal Clonc, am eu cefnogaeth caredig ar hyd y 8 mis diwethaf, yn dilyn triniaeth Mathew yn Ysbyty Glangwili, Ysbyty yr Heath Caerdydd, National Hospital for Neurology and Neurosurgery yn Llundain ac Ysbyty Moorfields Llundain. Fel teulu diolchwn yn ddifunat am y galwadau i'r tŷ, y galwadau ffôn, a'r negesuon di-ri, y cardiau, yr arian, cacenau a'r anrhegion. Fel teulu rydym hefyd



Daeth 16 disgybl a 6 athro o Slofenia, Yr Eidal a Groeg i ymweld â ni fel rhan o'n prosiect Erasmus+. Addysgu a dysgu yn weledol a chreadigol oedd prif ffocws yr wythnos. Ar y diwrnod cyntaf yn dilyn gwasanaeth croeso, bu'r disgyblion yn cydweithio i gynllunio a chreu baner ar gyfer y cynllun. Y noson honno cawsom gyfle i gymdeithasu yn "Ar y bêl". Ar ddydd Mawrth, daeth yr arlunydd Eirian Jones a Lowri Pugh i'r ysgol i gynnal gweithdai crefft ar lwyau caru, a daeth Gwenllian Beynon i gynnal gweithdy argraffu sgrin wrth i'r plant greu dyluniadau ar grysau-t. Nos Fawrth, cawsom barti pítsa ym Mhentre Bach, ble'r oedd ein gwsteion yn aros. Ar ddydd Mercher ddaeth Meinir Mathias i gynnal gweithdy celf amlgyfrwng, a llwyddodd y plant i greu cardiau post bendigedig i'w danfon nôl i Slofenia, Gwlad Groeg a'r Eidal. Nos Fercher aethom i gyd i fowlio 10 yng Nghaerfyrddin. Trip i'r Llyfrgell Genedlaethol oedd ddydd Iau, a chyfle i weld gwaith celf gorau ein cenedl. Ymunodd ein ffrindiau tramor yn ein noson o Gawl a Chân, gan berfformio cân a dawns draddodiadol o'u gwledydd. Ar y diwrnod olaf, llwyddom i greu un murlun anferth gyda'n gilydd. Cofnod bendigedig o wythnos fythgofiadwy.



Yn dilyn hanner tymor o waith ar y thema "Oriol", agorwyd Oriol Y Dderi yn neuadd yr ysgol ar y 15fed o Fawrth. Gwahoddwyd y cyhoedd i grwydro o amgylch yr oriel a oedd yn arddangos efelychiadau'r plant o waith celf o gyfnod y dadeni, bywyd llonydd, swrealaeth, celf pop a modern. Roedd yn gyfle i lansio ein oriel ar lein hefyd. Diolch i Miss Helen Duffee a Mr Dylan Davies am eu holl help gyda'r gwaith. Llwyddodd nifer o'r disgyblion werthu eu gwaith ac yn unol a threfniadau arferol oriel, bydd canran o'r arian yn mynd nôl i'r arlunwyr eu hunain!

Casglu stampiau

wedi bod yn casglu stampiau fel diolch i Gymdeithas y Deillion, am eu cefnogaeth parod nhw. Mor belled mae gennym rhyw 10,000 o stampiau i drosglwyddo i'r Gymdeithas pan fyddwn yn ysbytu Llundain tro nesaf efo Mathew. Mae y gymdeithas yn derbyn elw o rhyw £50,000 y flwyddyn. Felly os oes unrhywun personol, cymdeithas lleol, capel neu eglwys sydd â diddordeb mewn casglu stampiau ar ein rhan mi fyddwn wir yn ddiolchgar. Croeso i chi

gysylltu efo ni am fwy o fanylion ar 01559384781/ 07812676592/ kevinrowcliffe@aol.com. Rydym eisioes wedi derbyn llu o stampiau wrth ddarllenwyr Clonc: diolch i chi oll am eich cyfraniad. Rydym yn ymfalchïo mewn cryfder Mathew sydd yn dal i weithio a byw yn annibynol yn High Wycombe, ger Llundain, ac yn cadw ein ffydd yn ddyddiol am newyddion positif iddo, efo ei olwg a'i iechyd. Diolch o galon i bawb wrth Kevin, Rhian, Tom, Huw, Shon, Mathew a Hanna.

Llanbedr Pont Steffan



Dathlodd Cylch Cinio Llanbed Gŵyl eu Nawdd Sant gyda chinio yng Nghlwb Rygbi Llanbed ac i ddilyn fe'u diddanwyd gan ddau o gantorion enwog - Helen Gibbon a Kees Huysmans a'u cyfeilydd Elonwy Pugh Huysmans a chyda nhw yn y llun mae swyddogion y Flwyddyn. O'r chwith - Yr Athro Densil Morgan, Llywydd; Helen Gibbon; Twynog Davies, Ysgrifennydd Siaradwyr; Kees Huysmans; Aneurin Jones, Gohebydd y Wasg; Elonwy Pugh Huysmans a Tim Jones, Ysgrifennydd. Tom James, Trysorydd yn absennol.

Cylch Cinio Llanbed

Cynhaliwyd cyfarfod Gŵyl Dewi Cylch Cinio Llanbed ar y 3ydd o Fawrth yng Nghlwb Rygbi Llanbed dan lywyddiaeth yr Athro Densil Morgan ac yn ôl yr arfer fe groesawyd y gwagedd a nifer o ffrindiau'r Cylch i'r cyfarfod olaf hwn o'r tymor. Mae hefyd wedi tyfu'n arfer erbyn hyn i ddathlu'r ŵyl trwy gerddoriaeth a chân. Y gwsteion eleni oedd y cantorion adnabyddus sef y soprano Helen Gibbon a'r bâs-bariton Kees Huysmans gyda Elonwy Pugh Huysmans yn eu cyfeilio. Wedi mwynhau'r wledd arbennig o luniaeth a ddarparwyd unwaith eto gan y Clwb, braint oedd cael mwynhau'r wledd o gerddoriaeth a gafwyd gan y tri ohonynt.

Bu Helen a Kees eu dau'n unawdwyr buddugol nifer o weithiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Helen yw arweinydd Côr Tŷ Tawe. Mae Kees yn aelod o'r Cylch ac yn ffigwr amlwg a chyfarwydd ym mywyd cerddorol a masnachol Dyffryn Teifi tra bod ei briod Elonwy yn arweinydd ac yn gyfeilyddes i Gôr Cwmann ac yn organyddes yn Eglwys San Pedr, Llanbed.

Fe agorasant eu rhaglen ar nodyn o ramant gyda threfniant i ddeuawd o Dwys Fel y Nos - trosiad Dic Goodman a Caryl Jones o gân Carl Bohm. Yna cafwyd unawd gan Kees sef Bryniau Aur Fy Ngwlad o waith T Vincent Davies (prin y byddech yn meddwl mai Is-Almaenwr oedd yn ei chanu) a datganiad gan Helen o Mae 'Na Hedd yn y Dyffryn o'r sioe gerdd Esther gan Nan Lewis ac Eric Jones, gan gyflwyno'r themâu sydd mor briodol i ŵyl ein nawddsant, sef gwladgarwch a delfrydiaeth ffydd. Parhawyd gyda'r themâu hyn. Ar yr un llaw cafwyd Cymru Annwyl gan Helen, Aros Mae'r Mynyddau Mawr gan Kees a'r ddeuawd Y Ddau Wladgarwr. Ar y llaw arall cafwyd y deuawdau Benedictus (o Er Hwyllo'r Haul gan Robat Arwyn) a Moliant i'r Iôr. Daeth yr adloniant i ben gyda datganiad o Dafydd y Garreg Wen fel encôr. Fe swynwyd yr aelodau gan raglen amrywiol ac ystyrlon a gan y modd diymdrech y'i cyflwynwyd hi gan y ddau lais cyfoethog hyn a chyfeiliant Elonwy. Rhoddwyd cymeradwyaeth wresog i'r tri.

Yn ddiwedd glo i'r tymor fe drosglwyddodd yr Athro Densil Morgan lywyddiaeth y Cylch i Aneurin Jones, cyn-brifathro Ysgol Gyfun Llanbed ac un o naw aelod gwreiddiol y Cylch. Aeth y llywydd newydd ymlaen i gynnig diolch ffurfiol i Helen, Kees ac Elonwy gan awgrymu mor fodlon y byddai sefydlwyr eraill y Cylch o weld cynifer oedd yn bresennol yn cyfarfod hwn a'r modd yr oedd yr adloniant a gafwyd yn adlewyrchu delfrydau sylfaenol y Cylch. Diolchodd hefyd i swyddogion eraill y Cylch am eu gwaith, sef y bonheddwyr Tom James (Trysorydd,) Tim Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol,) a Twynog Davies (Ysgrifennydd Siaradwyr) gan nodi llwyddiant arbennig Twynog i ddenu cyfres o westeion penigamp dros y tymor a fu. Fe fydd y Cylch yn ymgynnull eto yn yr Hydref ac edrychir ymlaen yn eiddgar at hynny.



Gymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar

Braf oedd gweld Festri Shiloh ar nos Wener Mawrth 11 o dan ei sang wrth i'r Gymdeithas Ddiwylliadol ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Estynnwyd croeso eleni i Eglwys hanesyddol Blaenannerch i ymuno gyda ni ac mi gafwyd orig hyfryd yn eu cwmni drwy gyd gymdeithasu gyda'n gilydd. Eurwen Davies yn ôl ei harfer gyda chymorth Ceris Lodwig fu'n paratoi y cawl a'r pwddin reis ac roedd e'n ffein i'r graddau fod pawb a'i dwylo lan fel Oliver Twist yn gofyn am ragor!! Diolch i'r ddwy am baratoi pryd mor flasus ar ein cyfer.

Roedd yr Adloniant eleni yng ngofal Parti Ffrindiau o gylch Tregaron gyda Bronwen Morgan yn cyflwyno yr eitemau. O'r cychwyn, crewyd sain gynnes a chyfoethog gan y parti ac yr oedd yna asiad lleisiol hyfryd gan y pedwar llais. Cafwyd amrywiaeth o gerddoriaeth yn cynnwys trefniadau o alawon gwerin, eitemau o'r sioeau cerdd, emyn donau traddodiadol a gorffen ei rhaglen gyda'r clasur o waith Eric Jones ar eiriau Waldo o'r Tangnefeddwyr. Cafwyd cyflwyniad hyfryd gan Bronwen hefyd o'r Glannau o waith John Roderic Rees. Swynwyd ni hefyd gan unawdau gan Huw Davies a Cyril Evans heb anghofio hefyd gyfraniad y ddau frawd bach Gethin a Dafydd Bennet. Yr amryddawn Nellie Jones oedd yn cyfeilio i'r parti a'r artistiaid.

Huw Jenkins gafodd y fraint o ddiolch i bawb am noson arbennig - un a erys yn y cof am hir. Diolchodd y Parch Llunos Gordon ar ran aelodau Blaenannerch am y gwahoddiad ac am y boddhad o gael clywed y fath dalentau lleol. Twynog Davies a Rhys Bebb Jones oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r noson yn absenoldeb y Llywydd.

Daeth y noson i ben drwy gyd ganu emyn wladgarol Elfed - Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion, diwedd glo addas i dymor llwyddiannus o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol. Diolch yn arbennig hefyd i'r Llywydd Philip Lodwig am lywio'r gweithgareddau mewn ffordd mor gartrefol yn ystod y tymor ac i'r swyddogion am eu gwaith hwythau hefyd.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar David John Williams, Y Fenni, Llambod (gynt of fferm Abernaint, Crugybar) a hunodd ddiwedd mis Chwefror, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiaid, blodau, galwadau ffôn, rhoddion a galwadau i'r tŷ.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Croesawyd Deina Jones i gyfarfod Urdd y Benywod, Brondeifi, ym mis Mawrth. Diolch i Deina, dyma'r tro cyntaf i'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa gael gweld rhaglen deledu cyn iddi gael ei darlledu. Os nad yw enw Deina yn gyfarwydd i chi, fe fydd y rhaglenni y bu hi'n gyfrifol amdanynt yn sicr o daro cloch. Y llynedd, un o'r uchafbwyntiau S4C roedd y rhaglen eithriadol o ddiddorol am T. Llew Jones. Mae Deina hefyd wedi creu rhaglen am yr awdur dadleuol Caradoc Evans.

Profiad gwych oedd gweld y gwaith sy'n mynd ymlaen y tu cefn i raglen deledu, a'r nifer o bobl sy'n ynghlwm â'r gwaith o'i greu. Pwnc y rhaglen y cawsom gip-olwg arni oedd 'Colur', un o gyfres i BBC Wales sy'n trafod "Body Matters". Connie Fisher sy'n cyflwyno, a gwelsom fenywod o bob oedran yn ymateb i'r thema, thema sy'n bwysig dros ben, nid yn unig i'r unigolyn ond hefyd i'r cwmnïoedd rhyngwladol sydd yn gwneud biliynau o ddoleri yn flynyddol o'r busnes yma. Ie - biliynau! Ac mae'n debyg taw dau gwmni yn unig sydd tu ôl i'r holl enwau colur a welwn yn y farchnad.

Dyna ddawn Deina, sef creu stori sydd yn cydio yn y meddwl a phryfocio cwestiynau. Cafodd aelodau o'r Urdd gyfle i holi Deina am y pwnc ac am y broses o wneud y rhaglen. Mae ei gyrfa hi ei hun yn ddiddorol. Ar ôl ymadael â Choleg Somerville ym Mhrifysgol Rydychen, bu hi'n gweithio i'r BBC o 1986 hyd at 2009. Mae hi wedi llenwi nifer o swyddi ym myd y cyfryngau. Ei hoff ddiddordeb yw hanes, ac ar ôl sefydlu Cwmni Silin, mae hi wedi canolbwyntio ar raglenni hanesyddol. Clywsom ran o raglen i Radio Cymru yn rhoi hanes ei thadcu, y Capten Jac Jones o Aberaeron, darn gafaelfgar iawn.

Gofynnwyd iddi am fwy o raglenni gyda stori, ond roedd yn rhaid i Deina ein hatgoffa mai "diwedd y gân yw y geiniog" gan fod y rhaglenni yma yn ddud i'w cynhyrchu. Sut bynnag, fyddwn ni yn yr Urdd yn edrych ymlaen at weld a chlywed mwy o waith Deina yn y dyfodol.

Wrth ddiolch iddi, cyfeiriodd ein Is-lywydd, Gwenda Davies, at y fraint o gael cwmni Deina a'i gallu i ysgogi'r gynulleidfa drwy ei gwaith. Dywedodd ei bod wedi bod yn fwynhad mawr cael ail-olwg ar sawl rhaglen ddiddorol yn ogystal â chael rhagflas ar raglen heriol sydd ar ddod.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd i Ysgol Bro Pedr i fwynhau noson yng ngofal Elin Williams ac fe'i croesawyd yn gynnes gan Elan.

Llanbedr Pont Steffan

Roedd wedi paratoi cwis diddorol a hwyliog ar ein cyfer yn cynnwys cwestiynau a thasgau amrywiol. Yn dilyn cystadlu brwd roedd timau Lisa a Zoe yn gyfartal gyda 44 o farciau ar ddiwedd y nos ond ar y brig roedd criw Elan gyda sgôr o 50. Diolchodd Megan i Elin am baratoi mor drwyadl ar ein cyfer.

Pythefnos yn ôl Geinor Medi oedd yn ein diddori. Cafwyd noson yn llawn hwyl a sbri yn cymryd rhan mewn gêm amrywiol yn cynnwys Taten Boeth, Osgoi'r Bêl, Mochyn yn y Canol a Thag Cadwyn. Talwyd diolch i Geinor gan Lowri Aur am noson llawn cyffro.

Llongyfarchiadau i'r aelodau ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar.

Dyma'r canlyniadau: Deuawd bl 7 - 9 1af Elan a Beca, Deuawd Cerdd Dant 2ail Elan a Beca, Parti deusain bl 9 ac iau 1af, Côr bl 9 ac iau 1af, grŵp Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo bl 10 a dan 19 oed 1af. Hefyd yn cynrychioli Ysgol Bro Pedr cipiodd Elan y wobr gyntaf yn y llefaru bl 7 i 9, Beca yr 2ail yn yr unawd cerdd dant a Sioned y drydedd wobr yn yr unawd. Pob lwc i bawb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint ar ddechrau Mehefin. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ein hymwelïad â'r ardal.

Merched y Wawr

Fel llawer o ddarllenwyr Clonc cawl oedd ar fwydlen cangen Llanbed o Ferched y Wawr mis yma. Cawsom wahoddiad lawr i gangen Llanybydder i gyd wleda a wedyn cyflwyno hanner awr o adloniant i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Wedi bowlen neu ddwy o gawl blasus tu hwnt a wedyn amrywiaeth hyfryd o ddanteithion melys awd ati i "berfformio" yn barchus! Cafwyd amrywiaeth o ganu- yn unigol ac mewn parti, llefaru- y lleddf a'r llon, chwarae'r delyn, dangos lluniau a sgets i ddiddori'r gynulleidfa. Rhaid diolch i'n Llywydd Anne Bowen Morgan am drefnu rhaglen amrywiol ac hefyd Elin Williams am ysgrifennu geiriau addas ac hefyd annog pawb i gymryd rhan. 'Roedd yr aelodau yn reit falch ar ddiwedd y gyngerdd fach ein bod wedi mynd trwyddi yn weddol slic ac yn ymfalchio yn y clod a ddaeth oddi wrth aelodau Llanybydder ar ddiwedd y noson.

Ein tro ni oedd paratoi cawl bythefnos yn ddiweddarach a braf oedd croesawu merched Llanybydder a Thregaron atom yn Llanbed. Wedi gwledd flasus arall a oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor mi ddaeth aelodau Corisma i'n diddori. Lena oedd yn cyflwyno, Alwena a Lois yn cyfeilio a Carys yn arwain. Cawsom wledd arall - o ganu swynol i ganeuon yn olrhain hanes ein

gwlad a'n hiaith ar hyd y canrifoedd. 'Roedd ein gwesteion wrth eu bodd a phawb ym mynd adre yn ysgafn droed wedi cael noson hwylus iawn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'n gilydd unwaith yn rhagor.

Clwb Bowlio Llanbed

Llongyfarchiadau i Anwen Butten o Glwb Bowlio Llanbed ar ennill medal arian mewn gêm brawf Chwe Gwlad yn Christchurch, Seland Newydd ym mis Mawrth.

Roedd Anwen yn cynrychioli Cymru mewn tîm o bedair ac arweiniodd y tîm i fuddugoliaeth yn erbyn De Affrica, Malaysia, Awstralia, Seland Newydd a chael gêm gyfartal yn erbyn yr Alban. Roedd y pedwarawd wedi dod i'r brig o fewn y grŵp ond yna wedi colli yn y gêm derfynol yn erbyn Seland Newydd, o dan amgylchiadau anodd mewn gwyntoedd cryf.

Hefyd, Pob Lwc i Melanie Thomas o Glwb Bowlio Llanbed a fydd yn teithio allan i Awstralia ar gyfer y Pencampwriaethau Byd dan 25 i gynrychioli Cymru ym mis Ebrill.

Noddfa

Cynhaliwyd oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet yn Noddfa nos Sul 13 Mawrth yng ngofal yr Ysgol Sul. Mewn pennill a chân bu'r plant a'r bobl ifanc gyda chymorth rhai o'r Mamau yn dathlu Gorfoledd y Pasg a Gwyrth y Gwanwyn. Croesawyd pawb gan Sioned a chyhoeddwyd yr emynau gan Grace, Cerys, Sion Ifan, Rhys Tom, Efan, Gwenllian a Ffion. Offrymwyd gweddïau gan Dafydd, Sian Jones a Sian Roberts Jones a'r llefarwyr oedd Delyth a Helen. Cafwyd sgwrs gan Rhys, Osian ac Elan yn llawn hiwmor ond hefyd yn ein hatgoffa o neges bwysig y Pasg. Mwynhawyd deuawd gan Elan a Sioned ynghyd â datganiadau gan grwpiau canu amrywiol. Roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae rhan y dorf wrth ail greu prawf Iesu gyda Llinos yn portreadu Pilat. Roedd boddhad y gynulleidfa yn amlwg wrth wrando ar y plant ieuengaf sef Darcey, Tudur, Rhun, Trystan Wyn a Trystan Bryn yn canu a llefaru a phob un yn rhoi o'u gorau glas. Braf oedd gweld Efan Thomas aelod newydd o'r Ysgol Sul yn cymryd rhan am y tro cyntaf ac yn gwneud hynny yn llawn hyder. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Eiry a hyfryd oedd gweld dwy ferch ifanc sef Sioned ac Elan yn cynorthwyo Llinos a Janet gyda'r cyfeilio am y tro cyntaf ac yn cyflawni eu gwaith yn ardderchog. Mae cyfanswm cyfeilyddion Noddfa wedi codi i 8 erbyn hyn sydd yn ffigwr uchel iawn mewn eglwys fach o ran aelodaeth. Diolch am eu cyfraniad pwysig i fywyd yr eglwys.

Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd pôs Beiblaidd gan Janet sef enwi disgyblion

Ysgol Sul Brondeifi



Dyma blant Ysgol Sul Brondeifi wedi eu gwasanaeth Gŵyl Dewi yn y Ffestri. Roedd pawb yn canmol eu perfformiad ac wedi mwynhau yn fawr yn eu cwmni. Dilynwyd y gwasanaeth gyda'r Cawl arferol gan Delyth, Ffosyfffin.



Dyma lun o Miss Joan James yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ac yn derbyn blodau gan Mrs Mair Lewis ar ran swyddogion, aelodau a ffrindiau Capel Shiloh.

Iesu. Roedd cardiau â'r enwau amynt wedi eu cuddio ar hyd a lled y capel a bu'r plant yn gwibio o gwmpas yn llawn cyffro nes dod o hyd iddynt. Yna rhannwyd y gynulleidfa i ddau dîm ac ar ôl tipyn o bendroni criw Ronnie oedd ar y brig a Nia Wyn a'i thîm yn dynn ar eu sodlau ond methwyd dod o hyd i un enw!! Peth rhyfedd yw'r cof!!

Diolchodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos i bawb am eu cyfraniadau graenus, i'r rhieni am eu cefnogaeth, i Derek a John am godi'r llwyfan ac yn olaf ond nid y lleiaf i Janet am baratoi a threfnu yn ôl ei harfer.

Llongyfarchwyd nifer o'r plant a'r bobl ifanc ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion a dymunwyd yn dda i Cerys Angharad ac Elan ynghyd â nifer o'r plant a'r bobl ifanc sydd yn aelodau o grwpiau canu a dawnsio Aelwyd Llanbed ac Ysgol Bro Pedr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint ymhen deufis.

Aeth pawb o'r oedfa wedi derbyn bendith yng nghwmni'r ieuencid ac yn uchel eu canmolïaeth o'u cyfraniadau.

Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd.

Chwiorydd Cristnogol Ciwba oedd yn gyfrifol am baratoi gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd eleni a'r thema oedd 'Derbyniwch Blant, Derbyniwch Fi'. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Noddfa a chroesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Cymerwyd rhan gan chwiorydd eglwys Llambled a'r cylch a chyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan anerchiad pwrpasol a diddorol y Parchedig Athro Densil Morgan yn seiliedig ar y thema. Diolch iddo am ei neges. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann Bowen Morgan.

Dathlu'r Pasg yn Noddfa

Daeth aelodau Noddfa ynghyd ar 22 Mawrth ar gyfer digwyddiad arbennig iawn i ddathlu'r Pasg. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr y Pasg a hefyd i gymdeithasu o amgylch y byrddau tra'n mwynhau pryd o fwyd yng nghwmni'n gilydd. Braf oedd cynnal y swper eleni yn y capel am y tro cyntaf yn dilyn newidiadau mawr i'r adeilad y llynedd gyda digonedd o le i bawb. Fe'n croesawyd yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac yna clywsom anogaeth llythyr yr apostol Paul i'w gyfeillion yng Nghorinth a hefyd ychydig adnodau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratoadau gwledd y Pasg. Offrymwyd gras wedyn cyn i ni gyfranogi o'r prif gwrs ardderchog wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Yn dilyn hyn clywsom hanes Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion ac yna mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o bwdinau chwaethus iawn. Ar ôl paned daeth noson hyfryd i ben gyda'n Gweinidog yn gweinyddu'r cymun. Cyn troi tuag adref diolchodd John Morgan i'n Gweinidog am ei chyfraniad hithau gyda'r trefniadau bwyd, i'r 8 darllenydd ac i'r chwiorydd a'r brodyr oedd wedi cyfrannu mor

Llanbedr Pont Steffan

helaeth at y lluniaeth. Tystiai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phleserus dros ben wrth ddod at ein gilydd i ddathlu gorfoledd y Pasg.



Helen Jones, Cadeirydd 'The Lampeter Farm Women's Club' a Heulwen Jones, Trysorydd yn cyflwyno sic o £300 i Ros Jones, Cynrychiolydd Ambiwlans Awyr Cymru, yn ystod ei dathliadau Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn Castle Green, Llanbedr.

Dathlu 150 o Rygbi



Lawnsio'r llyfr 'The Fighting Parsons' a ysgrifennwyd gan Selwyn Walters. Yr awdur yn arwyddo ei lyfr i ddathlu 150 o flynyddoedd o Rygbi yn Llanbedr.

Dr Brinley Jones yn ysgwyd llaw gyda Mr Barry John, a etholwyd yn Gymrawd o Brifysgol Cymru yn ystod dathliadau 150 o flynyddoedd o Rygbi yn Llanbedr. Yn y llun hefyd mae Mr Randolph Thomas, Cadeirydd Cyngor y Brifysgol.



Dadorchuddio cofeb tu allan i adeilad Canterbury ar gampws y Coleg i Rowland Williams a Llanbedr – man geni Rygbi yng Nghymru. O'r chwith – Cyng. Chris Thomas, Maer Llanbedr; Dr R Brinley Jones, Llywydd; Yr Athro Medwyn Hughes, Is-Ganghellor; Barry John, Undeb Rygbi Cymru a Mr Randolph Thomas, Cadeirydd Cyngor y Brifysgol.

Cymdeithas Hanes



Olrhain hanes tafarnau Llanbedr oedd thema cyfarfod mis Mawrth, - ffrwyth gwaith a wnaed ar gyfer 'Peint o Hanes plis', prosiect sy'n dod o dan amberel 'Cynefin' yn y Llyfrgell Genedlaethol. Synnwyd llawer i glywed fod dros ddeugain o dafarnau wedi bod yn y dref, - ond nid i gyd yr un pryd, - a rhai ohonynt heb lawer mwy nag enw, ac efallai enw pwy bynnag oedd yn eu rhedeg ar yr un cofnod hynny. Sawl un ohonynt yn dyddio nôl i'r ddeunawfed ganrif o leiaf.

Aed ar daith megis o'u cwmpas i gyd drwy gyfrwng lluniau, ac yna dros 'paned o de neu goffi (sylwch!), cafwyd amser i edrych drwy ffeiliau unigol y tafarnau. Symbyliad oedd y noson hon am ragor o wybodaeth, gan ofyn i'r aelodau ddod â lluniau, dogfennau, pytau o storïau ag ati er mwyn eu cadw mewn côf. Estynnir yr apêl yma i'r cyhoedd – ddarllenwyr Clonc cymrwch sylw, - os oes gennych unrhyw beth i gyfrannu, plis dewch â'r hanes i mewn i'r Amgueddfa yn Llanbedr, neu ei anfon drwy e-bost i yvonne.afallon@gmail.com

Bydd y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Ebrill 19, 7.30yh yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd Barbara Jones, yn rhoi hanes morwrol ei thad, Watkin Evan Jones, Churchill, Llanbedr. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Llanbedr

Mae'r Amgueddfa wedi ail-agor erbyn hyn, a chafwyd noson arbennig ar yr 21ain o fis Mawrth,

pan estynnwyd croeso i 'ffrindiau'r amgueddfa' i ddod i weld y casgliadau newydd cyn yr agoriad swyddogol drannoeth.

Roedd yno fwrwm mawr, ac ymateb da i'r hyn sydd yna i'w weld yn ystod y tymor newydd. Edrychir ymlaen i'ch croesawu yno, - bydd angen dod mwy nag unwaith i sylwi ar bopeth!

Mae Cyngor Cymuned Pencarreg wedi rhoi casgliad arbennig o'r plwyf at ei gilydd, yn luniau a chreiriau; storïau'r bechgyn lleol yn 1916 sy'n ymwneud â'r Rhyfel Mawr; hanes ffermdy Esgerfraith ar y mynydd rhwng Llanfair a Ffarmers; casgliad o gardiau coffadwriaeth, a storïau'r bobl y tu ôl iddynt; hanes cryno dyfodiad y rheilffodd i Llanbedr 150 mlynedd yn ôl, - a mwy. Ond yma eto, mae angen eich storïau chi i ychwanegu at yr hanesion. Felly, beth am droi mewn am ychydig, a blasu'r hyn sydd ar eich cyfer.



Aelwyd Llanbedr

Beca Jones ac Elan Jones, Aelwyd Llanbedr a gipiodd y wobr 1af yn y ddeuawd Bl. 7 - 9. Dymuniadau gorau i chi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint ar ddechrau mis Mehefin.

Hefyd, cafodd y ddwy yr ail wbr yn y Ddeuawd Cerdd Dant Bl. 7 - 9. Llonyfarchidau mawr i chi.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae wedi bod yn fis prysur iawn ym mywyd Ysgol Cwrtnewydd unwaith eto!

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn ein ffordd draddodiadol o wisgo y wisg Gymreig. Cyhoeddwyd taw Luned Jones yw cymwynaswraig y flwyddyn a hefyd cynhaliwyd cystadlaethau llawysgrifen ac arlunio.

Ar ddydd Iau, Mawrth 3ydd cynhaliwyd Eisteddfod Urdd cylch Llanbed.

Dyma'r canlyniadau:-

1af – Unawd Bl. 5 a 6 – Alaw Jones, 3ydd – Llefaru Bl. 3 a 4 – Elan Jenkins, 1af – Parti Llefaru, 1af – Parti Unsain.

Ar brynhawn Mawrth 10fed aeth y plant hŷn i gystadlaethau trawsgwlad cylch Llanbed. Cafwyd prynhawn o gystadlu brwd. Bydd Alaw Jones, Lisa Jenkins, Luned Jones, Katy Moyes, Elan Jenkins, Jac Rees, Lucy Moyes, Sara Davies a Lowri Rees yn cynrychioli'r Ysgol yn rownd Ceredigion ar ddiwedd mis Ebrill. Llongyfarchiadau a phob lwc!

Bu'r plant hŷn mewn Gŵyl Hoci yn Llanbed. Cafodd y plant ddiwrnod da yn dysgu sgiliau hoci ac yn chwarae gemau.

Llongyfarchiadau mawr i'r Parti Unsain am ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid, bydd y parti yn cystadlu ar fore dydd Llun, Mai 30ain yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Fflint. Pob lwc. Cafodd Alaw Jones yr ail wobwr yng nghystadlaethau Unawd bl. 5 a 6 yn yr Eisteddfod Sir.

Mae disgyblion blwyddyn 6 sef Daniel Waterman, Lisa Jenkins ac Alaw Jones wedi mwynhau mynychu sesiynau pontio yn Ysgol Bro Pedr yn ddiweddar.

Croesawn ddisgybl newydd i'n plith ar ôl y Pasg. Mae hi wedi creu ffrindiau newydd yma yn yr ysgol yn ystod ei hymweliadau ac edrychwn ymlaen i'w chael yma yn llawn amser.

Bu pump o'r disgyblion hŷn yn cystadlu mewn cystadlaethau rygbi tag yn Aberaeron a gafodd ei drefnu gan yr Urdd. Cafodd y plant ddiwrnod llawn hwyl wrth gymdeithasu gydag ysgolion eraill o fewn y sir.

Cynhaliwyd noson o adloniant yn ein cyngerdd Pigion Pasg. Braf oedd gweld pob disgybl yn ymroi ar y llwyfan. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi unwaith eto.

Cafwyd helfa drysor wyau Pasg i'r plant ar dir yr Ysgol. Dyna beth oedd hwyl yn darganfod yr wyau ond roedd yn dipyn fwy o hwyl i fwyta'r wyau siocled!

Hoffwn ddiolch i Gwawr Hatcher am ei chymorth tra yn yr ysgol am wythnos o brofiad gwaith.

Aethom am brynhawn i Gartref

Preswyl Alltymynydd i gynnal cyngerdd i'r trigolion. Roedd yn amlwg fod y trigolion wedi mwynhau gweld y plant yn perfformio iddynt.

Dros y gwyliau bu nifer o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen. Llongyfarchiadau mawr i bawb. Cafodd Jac Rees yr ail wobwr a'i chwaer Mari y drydedd wobwr yn y categori cyfyngedig i blant dan 8 oed. Enillodd y Parti Llefaru a'r Parti Unsain y wobwr gyntaf. Hefyd, enillodd Lucy Moyes y gystadlaethau ysgrifennu stori ar y teitl 'Antur' a chafodd Daniel Waterman yr ail safle.

Byddwn yn cynnal ein Calan Mai blynyddol ar ddydd Llun, Mai 2il yn yr Ysgol. Bydd rasy i'r plant ac oedolion, stondinau amrywiol a barbeciw. Croeso cynnes i bawb.

Parc Cwrt Park

Gan fod y cyngor yn cau'r parc chwarae ar safle Cae Sarn, rydym fel cymuned wedi penderfynu ei gymryd drosodd. Mae'r cyngor cymuned yng ngofal yr yswiriant, felly ein cyfrifoldeb ni fydd torri'r borfa a chynnal a chadw'r offer. Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno yn y cyfarfodydd.

Byddwn yn cynnal Sêl Cist Car ar iard yr ysgol ar ddydd Sul, Ebrill 17eg rhwng 10 a 2 o'r gloch. Tâl o £5 am stondin. Elw i'r parc cymunedol.

Ar y ffordd i Fflint

Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu ar ennill dwy gystadlaeth yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion yn ddiweddar sef Llefaru Bl. 2 ac Iau a Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau. Pob lwc i ti Ela yn Fflint ar ddiwedd mis Mai.

Rhifyn Mai Yn y Siopau Mai Sed

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Ebrill 25ain

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad
Blwyddyn Papur Bro
Clonc.
Beth am ei brynu fel
anrheg i rywun?

Cysylltwch â
Mary Davies,
ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cellan



Cyn y Nadolig, aeth aelodau WI Cellan i ganu carolau a chasglwyd £300. Yn ystod dathlu Gŵyl Ddewi, yn 'Y Pantri' cyflwynwyd sic o £300 gan Sue Mathers a Dr Annie Ravenhill-Johnson i Uwch Sister Liz Pugh, o Marie Curie.

ESTRONS

Bu'n adeg cynhyrfus iawn i'r grŵp ers i Radio 1 gynnwys y band yn rhestr bandiau newydd addawol yr orsaf radio. Cafodd y band wahoddiad allan i Wyl SXSW yn Austin Texas-gŵyl sy'n cynnig llwyfan i arddangos bandiau newydd cyffrous i gynhyrchwyr cerddoriaeth a labelau recordio mawr y byd. Mae DJs fel Annie Mac o Radio 1, Jo Wylie Radio 2, Steve Lamacq Radio 6 Live a Adam Walton Radio Wales wedi bod yn chwarae cerddoriaeth ESTRONS yn gyson a Huw Stephens o Radio 1 wedi dangos diddordeb mawr ers dyddiau Java, chwarae teg. O ganlyniad i'r sylw amlwg yma mae nifer dilynwyd y band wedi cynyddu yn sylweddol yn ddiweddar, yn enwedig ar ôl i'r sengl diweddaraf "I'll make a man of you" gael ei rhyddhau.

Mae Rhodri Daniel, Llysbarcud a'r aelodau eraill yn mynd i fod yn brysur iawn yn ystod y misoedd nesaf hefyd gan fod rheolwr ESTRONS Marc Picken (sydd hefyd yn reolwr ar un o brif grwpiau Ewrop- Massive Attack) wedi trefnu taith i'r grŵp. Gan ddechrau yng Ngŵyl Sŵn yng Nghaerdydd byddant yn perfformio hyd a lled y wlad mewn trefydd fel Reading, Coventry, Portsmouth Bradford Leeds, Bryste a Lerpwl cyn dychwelyd i'r stiwdio i recordio unwaith yn rhagor. Cewch ar You Tube i glywed y caneuon - "Garage Indie" yw'r steil yn ôl y bobl sy'n deall!!

Ta beth yw dyfodol y band mae Rhodri am nawr yn canolbwyntio ar ysgrifennu rhagor o ganeuon gan obeithio mwy o lwyddiant i ESTRONS yn y dyfodol. Dros penwythnos y Pasg mi wnaeth Huw Stephens drydarau mai ESTRONS fyddai'r band sy'n mynd i ddisgleirio eleni- cawn weld!

Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
caryl@hotmail.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Drefach a Llanwenog



Llongyfarchiadau enfawr i dîm hoci yr ysgol am ennill pencampwriaeth hoci ysgolion Ceredigion. Buont yn cystadlu'n gyntaf mewn twrnament i ysgolion Cylch Llanbed a gwnaethant yn arbennig o dda. Yn sgil hyn aethant ymlaen i gystadleuaeth derfynol y Sir ar gae pob tywydd Canolfan Hamdden Llanbed.

Wedi bore o gystadlu brwd daeth chwaraewyr Llanwenog i'r brig ac ennill y gystadleuaeth trwy orchfygu ysgolion Llandysul, Bro Sion Cwilt, Ciliau Parc ac eraill.

Aelodau'r tîm oedd Sion O'Keeffe, Dewi Lloyd, Jamie Jones, Sam Lewis, Rhodri Gregson, Harri Rivers a Hannah Ayonoadu. Derbyniodd y tîm fedalau oddi wrth y trefnydd Julie Macadam.

Ysgol Llanwenog

Llongyfarchiadau mawr iawn hefyd i Fflur Morgan a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Llanbed. Roedd nifer fawr iawn o blant yr ardal yn cystadlu a daeth Fflur i'r brig yn y gystadleuaeth Llefaru unigol i ddisgyblion blwyddyn dau ac iau. Bu'n cynrychioli'r cylch yn yr Eisteddfod Sir yn llefaru'r darn 'Cael Cam'. Da iawn ti Fflur.

Bu plant yr Adran iau hefyd mewn twrnament Rygbi tag yn Aberaeron a drefnwyd gan yr Urdd. Bu'r plant yn cystadlu mewn timau cymysg o Ysgolion Llanwenog, Llanwnnen a Chwrtnewydd o dan yr enw Dyffryn Cledlyn. Gwnaeth y timoedd yn dda iawn ac roedd yn ddiwrnod arbennig o dda lle cafodd y plant gyfle i gymysgu a datblygu eu sgiliau rygbi.

Bu plant yr adran iau hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad Ysgolion Cylch Llanbed ar gaeau criced y coleg. Cafwyd prynhawn da iawn o gystadlu a gwnaeth y plant yn dda iawn. Dyma'r plant a ddaeth i'r brig - Sion O'Keeffe yn 2il, Jamie Jones yn 3ydd, Dewi Lloyd yn 4ydd, Sara Thomas yn 3ydd, Rhodri Gregson yn 3ydd, Hannah Ayonoadu yn 3ydd,

Pleser yn ystod y mis oedd derbyn gwahoddiad oddi wrth Cymdeithas Henoed Llanwenog i'w diddanu mewn cyngerdd yn Eglwys Llanwenog. Daeth torf dda iawn yn cynnwys rhieni'r plant i'w cefnogi ar y 9 fed o Fawrth. Cafwyd perfformiadau unigol gan Angharad, Steffan Hedd, Erin, Fflur, Gethin, Teleri, ac Elen yn ogystal â pharti llefaru, parti unsain, Côr yr Ysgol ac adroddiadau amrywiol. Diolch

yn fawr iawn i Elonwy Davies am ei chymorth unwaith eto wrth gyfelio ac wrth hyfforddi'r plant. Diolch hefyd i Llyr Jones am ei barodrwydd bob amser i roi menthyg meicroffonau pwerus er mwyn i bob plentyn gael eu clywed yn glir. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr iawn.



Uchafbwynt y prynhawn oedd coroni'r bardd buddugol yn dilyn cystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth. Gofynion y gystadleuaeth eleni oedd cyfansoddi cerdd am y Gwanwyn. Cafodd y disgyblion i gyd hwyl ar yr ysgrifennu a chreuwyd cerddi gwych. Dyfarnodd y beirniad sef Miss Carol Davies mai'r buddugol, a oedd yn dwyn y ffug enw 'Tom Jones' oedd Dewi Lloyd, Hendre'r Dail, Drefach. Ar sain y corn gwlad fe godod Dewi a chafodd ei gadeirio ar y llwyfan. Derbyniodd gopi o'i gerdd wedi fframio ynghyd â chadair fach bren yn rhodedig gan Mrs Enfys Morgan i'w chadw am byth i gofio'r achlysur. Yr ail yn y gystadleuaeth oedd Sion O'Keeffe ac yn drydydd oedd Sam Lewis.

Dyma gerdd Dewi.

Y Gwanwyn

Yr haul hyfryd yn tywynu ar fore
rhewllyd ac oer,

Yr awyr las, glir, sgleiniog fel
deiamwntiau prydferth a drud.
Blodau lliwgar a llachar fel enfys
anferthol.

Coed ffrwythlon talsyth, yn
blaguro yn y berllan enfawr.
Afonydd troellog igam ogam, yn
teithio'n hamddenol fel cadno mawr
llwglyd.

Wyn bach yn breffu'n ddiamynedd
am eu mamau blinedig.

Adar yn canu'n uchel ac yn hyfryd
fel hen biano yn barod i wneud swm
arbennig.

Tywydd heulog cynnes fel
diwrnod o haf hardd.

Pysgod hapus yn nofio yn y dŵr
clae'r glas.

Y Gwanwyn tymor anhygoel o
dda.

Daeth diwedd ar dymor y
Gwanwyn yn yr ysgol a chafodd
plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i wisgo
mewn dillad ffansi yn ymdebygu
i gymeriad allan o lyfr darllen.
Cafwyd ymateb gwych gyda phob
plentyn yn gwneud ymdrech wych i
wisgo. Cafodd y plantos barti hefyd
i ddathlu diwedd y tymor. Bu Ficer
Suzy Bale hefyd yn yr ysgol yn
cynnal gwasanaeth diwedd tymor ar
hanes pwysig y Pasg. Diolch yn fawr
iawn iddi.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 21 o'r aelodau ynghyd i
Eglwys Llanwenog ar gyfer cyfarfod
Mis Mawrth, a derbyniwyd chwech
ymddiheuriad am absenoldeb.
Croesawyd pawb gan y Cadeirydd,
Dilwen George, gan ddiolch yr un
pryd i'r Ficer ac aelodau'r Eglwys
am gael cwrdd yno, ac am eu croeso
hwythau.

Dymunwyd gwellhad buan i
ddwy o'r aelodau, sef Mrs Sarah
Humphreys Jones, sydd wedi cael
llawdriniaeth, ac i Ray Evans,
Brynhogfaen, sydd wedi bod yn
anhwylus.

Wedi mynd trwy rannau
arweiniol y cyfarfod, baint oedd
cael croesawu plant a Staff Ysgol
Gynradd Llanwenog i roi adloniant
i'r aelodau. Mae bron iawn yn
draddodiad erbyn hyn fod plant
Cwrtnewydd a Llanwenog am yn
ail flwyddyn yn dod i'n diddanu, ac
edrychir ymlaen yn fawr i'w gweld
a'u clywed. Bu Mr Hywel Roderick
yn cyflwyno'r eitemau, a chafwyd
awr o fwyniant pur wrth wrando
arnynt yn unigol, partion, neu fel
côr, yn llefaru a chanu, - y plant
i weld yn mwynhau cymaint â'u
cynulleidfa.

Roedd llawer o'r rhieni wedi
ymuno â ni y prynhawn hwnnw
i weld y plant yn perfformio,

a chawsom ychwanegiad at y
rhaglen eleni, wrth weld bardd
ifanc yn cael ei gadeirio. Roedd y
plant wedi cyfansoddi darnau ar
thema'r Gwanwyn, a beirniadwyd
eu gwaith gan Miss Carol Davies,
eu Prifathrawes. Dyfarnwyd 'Tom
Jones' yn fuddugol, ac ef i godi ar
ganiad y corn gwlad. Dewi Lloyd,
Hendre'r Dail oedd y buddugol,
gyda Sean O'Keefe yn ail a Sam
Lewis yn drydydd. Da iawn chi
blant.

Diolchwyd i Mrs Elonwy Davies,
Llanybydder am roi o'i hamser i
gyfeilio i'r plant yn yr eisteddfod
gylch, a'r prynhawn hwnnw
yn Llanwenog, a chyflwynwyd
anrhegion iddi gan Steffan ac
Angharad. Ar ran yr aelodau,
rhoddodd Mary Thomas, Ffosffald
ddiolch o galon i'r plant a'r staff am
eu gwaith a'u hamser, a dymunwyd
yn dda i Fflur Morgan oedd yn
cystadlu yn yr Eisteddfod Sir
ddiwedd yr wythnos.

Ar ôl eu llafur caled, roeddent
yn falch o gael llymaid o sudd oren
a bisgedi yn yr Eglwys fach, a'r
aelodau'n eu dilyn wrth dderbyn
paned a lluniaeth o dan ofal
gwragedd yr eglwys. Diolchwyd
iddynt gan Beryl Lewin.

Bydd triplau'r haf yn cychwyn
ym mis Ebrill, a'r daith gyntaf yn
mynd dydd Mercher, Ebrill 13eg i
Lanycil i weld arddangosfa sy'n rhoi
hanes Mari Jones a'i Beibl. Enwau i
Yvonne 480490.

Eglwys Santes Gwenog

Ym mis Mawrth cynhaliwyd
cyfarfod misol Henoed y Plwyf yn
yr Eglwys. Braf oedd clywed plant
ysgol Llanwenog, - o'r lleiaf i'r
hynaf, - yn eu diddori ar lafar ac ar
gân. Diolch i'r athrawon am eu
paratoi mor drylwyr i safon uchel
iawn. Diolch i'r gwragedd am
baratoi a gweini lluniaeth ysgafn i
bawb i ddiweddu prynhawn pleserus
iawn.

Yn ystod y Grawys, bu aelodau'r
bedair eglwys yn cwrdd yn
Llanwenog i astudio'r darlleniadau
Beiblaidd sy'n berthnasol i'r Suliau
sy'n arwain at Wyl y Pasg.

Diolch i aelodau Cymdeithas yr
allor am eu gosodiadau hyfryd o
flodau'r Gwanwyn yn adlewyrchu
atgyfodiad Crist ar Sul y Pasg. Yn
ystod y gwasanaeth bedyddiwyd
Celt Llywelyn, mab bychan Carwyn
a Gwennan Jenkins, ac ŵyr Geraint
a Caroline Davies, Llyseri. Diolch
Mamgu am chwarae'r organ ar yr
achlysur arbennig. Mwynhawyd
lluniaeth yn yr Eglwys fach i
ddathlu'r bedydd. Dymunwn
ddyfodol hapus a llwyddiannus i'r
un bach, a phob bendith arno.

Llongyfarchiadau i ddwy famgu,
sef, Mrs Viria Jones, Gellideg ar
enedigaeth ei gor-ŵyr Charlie Evans
Jones, ac i Mrs Pauline Roberts

Llanwenog

Jones ar enedigaeth wyres, Isobel Amelia Jones. Cofiw'n amdanynt yn ein gweddïau. Dymunwn pob iechyd ac hapusrwydd i Ceri a Sian Davies sydd wedi symud i'w cartref newydd yng Nghwmnann. Yr ydym yn falch o glywed fod Sian ar wellhad wedi salwch yn ddiweddar.

Cofiw'n am bawb sy'n anhwylys naill ai gartref neu mewn ysbyty, a dymunwn wellhad buan iddynt. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Cofiw'n amdanoch yn ein gweddïau.

Canlyniadau'r Clwb Cant mis nesaf.

Capel Brynteg

Cynhaliwyd oedfa Cwrdd Gweddï Byd-eang y Chwiorydd ym Mrynteg ar y Gwener cyntaf o fis Mawrth, pan ddaeth gwragedd Eglwys Llanllwni a Llanwenog, a Chapeli Bethel Drefach a Brynteg, Capel Nonni a Seion, Cwrtnwydd at ei gilydd i gymeryd rhan.

Croesawyd pawb gan Megan Jones, Rhandir, a diolchwyd i Janet Howells, Gwarallt am gydlynny'r gwasanaeth. Gwragedd Cuba oedd wedi creu rhaglen yr oedfa eleni, a cheisiwyd rhoi naws y wlad honno yn y gwasanaeth drwy fapiau, swfenirs gwyliau, blodau ayyb. Diolch i bawb a gymerodd rhan.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Mair Davies, Dolwerdd yn well erbyn hyn ar ôl iddi gwmpo a thorri ei hip yn ystod y mis.

Taith Tractorau

Ar ddydd Sul, Mai 22ain cynhelir Taith Tractorau Drefach ar gaeau Maesyronnen am 10.30y. b. Elw tuag at Multiple Sclerosis a Chlwb Cledlyn. Am fanylion pellach cysyllter â Peter 01570 434342 neu Jeff ar 01570 481121.

C.Ff.I. Llanwenog

Llongyfarchiadau gwresog i Lauren Jones a chafodd ei dewis fel un o ddirprwyon newydd y sir. Pob lwc a mwynha'r flwyddyn sydd i ddod.

Yn ddiweddar mae aelodau'r clwb wedi bod yn mwynhau amryw o weithgareddau megis Cawl ac Eisteddfod dafarn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Chwis iau'r sir ac yn edrych ymlaen am fwy o weithgareddau cyffrous dros y mis nesaf.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Llanfair Clydogau



Pont Llanfair

Erbyn hyn bydd rhan fwyaf o bobl ardal Llanbed yn gwybod fod Pont Llanfair ar gau i draffig. Mae y bont wedi bod ar gau ers dros fis ond da yw gweld fod gwaith ei hadnewyddu wedi dechrau. Mae safon y bont wedi achosi llawer o bryder i blwyfolion Llanfair ers cryn amser. Mae'r bont yn holl bwysig i'r pentref a mae ei chau wedi cael effaith fawr ar fusnes yn y siop a'r swyddfa bost. Mae modd ar hyn o bryd i gerddwyr groesi'r bont ond i'r hen a'r methodig mae hyn yn golygu tipyn o faich. Mae pawb yn gobeithio y bydd y bont ar agor eto i foduron mor fuan â phosib.

Cwis

Ar nos Wener, Mawrth 18fed, cynhaliwyd cwis yn y neuadd gyda tua 45 o bobl wedi troi fyny. Mae hwn yn rhywbeth sydd wedi bod yn boblogaidd iawn dros y blynnyddoedd. Trefnwyd y noson gan Anwen Bell a'i ffrind Emily Davies gyda Jonny Bell yn sgorio. Cymerwyd rhan gyda thimau o bedwar ar bob bwrdd a thâl o £5 y bwrdd. Yr enillwyr oedd tîm CwisiModo wedi ei arwain gan Arwyn Evans, Llanfair Fawr. Trefnwyd cwestiynau i'r plant ar wahân. Y gwobrau i'r enillwyr oedd wyau Pasg. Diolch i Gwyneth Jones, Noyadd ac Eleanor Evans, Nantymedd am baratoi te a chacennau i bawb. Sally Leech oedd yn gyfrifol am y raffl a diolch i bawb a gyfrannodd anrhegion. Cafwyd noson ddiddorol a hwylus dros ben.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Julia Schoon, Plas Gorwydd ar ôl cystudd byr o ymladd yn erbyn cancer yr ysgyfaint. Cafwyd gwasanaeth hiwmanistig bendithiol yn yr amlogsgfa yn Aberystwyth gyda'r capel yn llawn o'i theulu a ffrindiau. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Richard Lewis gyda theymged i'w fam gan Tom a darn o farddoniaeth yn cael ei ddarllen gan Alex, partner Zoe, y ferch. Symudodd Julia a'i gŵr Dave i Blas Gorwydd rhai blynnyddoedd yn ôl ar ôl ymddeol o dde-dwyrain Lloegr. Yn fuan iawn daethant yn rhan o gymuned Llanfair.

Roedd Julia yn aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched ac yn gogydd arbennig. Yn y blynnyddoedd diwethaf roedd wedi bod yn rhan o'r grŵp oedd yn rhedeg caffî Hafan yn Nhregaron.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dave, ei gŵr, ei mab Tom a'i merch Zoe a'u teuluoedd.

Trist oedd clywed hefyd am farwolaeth Jen-hua Yung, tad Doli Yung, Tŷ Yfory, Heol Llanfair yn 91 oed. Roedd ei thad a'i mam wedi bod yn byw ym Mhlas Bach, Heol Llanfair ers ychydig dros dri mis.

Roeddynt wedi dod yma am wyliau o chwe mis. Dyma ei drydydd ymweliad a soniai am Gymru fel y nefoedd, a'i ddymuniad mwyaf oedd cael marw yng Nghymru. Cafwyd gwasanaeth preifat yn yr amlogsgfa yn Aberystwyth yna dod nôl â'r lludw i Eglwys y Seintiau, Cellan. Yno cafwyd gwasanaeth hyfryd yn Sheiniaid, Cymraeg a Saesneg i'r teulu a ffrindiau agos, gyda John Metcalf, partner Dolly wrth yr organ, a'r parch Bill Fillery yn gwasanaethu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dolly, ei mam, Mei-hoh, a gweddill y teulu.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn, Heol Llanfair sydd yn dathlu eu priodas Aur yn ystod mis Ebrill. Priodwyd hwy yng Nghapel Mair, Llanfair ar ddydd Llun y Pasg, 1966. Dymuniadau gorau iddynt eu dau.

Dathlu Gwyl Ddewi

Ar nos Wener, Mawrth 4ydd, cynhaliwyd noson cawl a chwist i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

Trefnwyd y noson fel arfer gan Sefydliad y Merched. Dechreuwyd y dathlu gyda chawl blasus iawn wedi ei baratoi gan Eleanor Evans, Nantymedd ac i ddilyn cafwyd gwledd o gacennau o'r safon uchaf wedi eu paratoi gan yr aelodau. Daeth nifer dda o bobol a phlant ynghyd i lenwi deg bwrdd gyda Sally Leech yn arwain y noson. Yr enillwyr oedd Annie o Gellan, Eleanor Evans Nantymedd, Llinos Thomas, Awelon, Ffion Davies, Nantymedd, Dan Griffiths, Pengarn ac eraill.

Ymddiheuriwn i'r rhai a enillodd heb eu henwi. Diolch i bawb a gyfrannodd anrhegion raffl.

Noson o gyfeillgarwch pur.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Arwyn Davies, Pentre sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty ar ôl amser byr yno.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphoto restoring.com

Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL

Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat

Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau

01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Enw: Siwan Davies

Oed: 26

Pentref: Llambled, ond yn wreiddiol o Lanwenog

Gwaith: Uwch Swyddog Cyfathrebu, Cyngor Sir Ceredigion

Partner: Emyr Richards

Teulu: Mam, Dad, Mamgu, Gwennan, Carwyn a Celt

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Llawer o atgofion gyda Mamgu a Tadcu Tanlan a Tadcu Tyn Fron a Nesta megis mynd lawr i ffarm Tanlan a cael gyrru'r Tractor.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Ffalabalam.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Mynd mewn i photo booth ym mhriodas Catrin Gwyn gyda Angharad G&M, Nia Elsbeth a Rhydian y Priodfab i gael tynnu ein lluniau. On i'n meddwl bod sedd i gal yn y photo booth, felly dyma fi'n eistedd ond yn cwmpo ar fy mhen ôl!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Bydwraig fel Anti Myf.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Tynnu gwallt Gwennan!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
I ddathlu un pen-blwydd, fe wnaeth Emyr drefnu penwythnos bant mewn gwesty moethus.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Paned o de, siocled a drama dda ar y teledu.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Aderyn, fel y gallen i hedfan ar draws y byd.

Beth yw dy arbenigedd?
Fi ar ganol neud cwrs Cysylltiadau Cyhoeddus, felly ar hyn o bryd, fi'n arbenigo mewn procrastination.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Dwi'n mwynhau bod ynghanol y straeon diweddara, yn aml cyn iddynt dorri, a chael galwadau wrth Clonc a'r Cambrian News i'r Wall Street Journal a Sky.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Gweithio yn Aberaeron – mae'r haul fel petai'n gwenu'n aml yno, felly anodd yw gwrthsefyll y



demtasiwn i fynd i gerdded llwybr arfordir Ceredigion.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Gorfod gyrru i bob man, a bod yn bell o faes awyr.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Unrhyw ddeddf, ond bod Cymru yn gyfartal.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu Camperfan a teithio ar draws Ffrainc a Sbaen.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Colli rhywun sy'n agos.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
S'dim angen lot i ddod a deigrin i'r llygad, a'r tro dwethaf oedd pan farwodd yr eliffant ar The Secret Life of the Zoo.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan nad odd Emyr yn tynnu ei bwysau gyda tasgau o amgylch y tŷ!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Ar drên sleeper yn Prachuap Khiri Khan ger Bangkok, Gwlad Tai.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?
Ennill cadair Ysgol Llambled ar fy mlwyddyn ola' yn yr ysgol a chadair Eisteddfod Rhyng-golegol pan oedd hi 'adre' yn Aber tu flaen teulu a ffrindiau.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Cyngor ges i wrth Dad sydd yn dod i'r meddwl yn aml – 'Tria dy ore, a na gyd alli di neud'.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael fy swydd gyntaf a alluogodd fi i arbed arian i deithio, prynu tŷ a car.

Beth yw dy hoff adeilad?
Does dim yn debyg i adre ma nw'n gweud, a gwir y gair – Llysderi a Eglwys Llanwenog.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Dibynnu beth yw'r whant – bwyd Indiaidd neu pysgod a sgloodion.

Beth yw dy ddiod arferol?
Port.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Dim lot! Fel arfer llaeth, cyw iâr, eog, caws feta, salad a chawl cartref.

Beth yw dy hoff arogl?
'Sdim gwell na arogl bwyd yn coginio neu bara Llanybydder.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Ar hyn o bryd, dwi'n darllen Behind Closed Doors gan B A Paris.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Chwarae'r gitâr neu'r iwcaili.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Dau wy wedi berwi bob bore.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweld pobl eraill yn neud yn dda,

a cheisio bod mor dda a nhw.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Cân draddodiadol Gymraeg.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Teithio'r byd siŵr o fod, ond mae'r holl atgofion yn golygu ei fod yn werth pob ceiniog.

Y gwyliau gorau?
Dwi wedi bod yn ffodus i deithio'r byd, felly anodd iawn yw dewis un gwyliau gorau. Aeth Emyr a fi i deithio yn 2012 gan ymweld â gwledydd megis Gwlad Tai, Awstralia a Seland Newydd. Roedd Patagonia yn un o'r llefydd hynny o'n i wastad wedi eisiau ymweld, felly pan ddaeth y cyfle gyda'r CFfl yn 2014, rhaid oedd mynd.

Beth yw dy hoff wisg?
Dibynnu ar yr achlysur. Adre fi'n joio gwisgo siwmpwr gyfforddus, joggers a sliperi i gadw'n gynnes. Fi hefyd yn hoffi digwyddiad fel priodas neu noson allan achos mae'n golygu mynd i siopa a gwisgo lan.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Darllen neu gwyllo drama dda fel Happy Valley neu The Night Manager ar y teledu.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Brig yr Wyddfa, Tŷ Coch a Rhosili.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Rhedeg hanner marathon Caerdydd, gwyllo gêm tenis yn Wimbledon a gwneud Sialens Llwybr Arfordir Ceredigion.

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Dwi di bod yn 6 cyfandir y byd, felly dim ond un i fynd – Antarctica!

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Teithio o un wlad i'r llall, ar draws y byd, mewn eiliadau.

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?
Bod yn bry ar y wal a gwrando ar sgysiau amryw o bobl.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Darllen.

Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Jonathan (Snowy) Davies, Llambled



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw' mae ffrindiau bach? Rwy'n dechrau cael digon ar yr hen law 'ma bob dydd ac wedi cael llond bol ar gragen wlyb drwy'r amser. Felly dw i wedi bod yn mwynhau tynnu lluniau, chwarae jig-so a gwyllo'r teledu yn y tŷ. Dw i hefyd wedi bod yn stwffo fy mol yn llawn o wyau siocled blasus iawn. A wnaethoch chi dderbyn llawer o wyau eleni? Mi wnes i a Sioni'r Sgwarnog gael helpa wyau allan yn yr ardd, ac rown i wedi blino'n lân ar ôl rhedeg nerth fy nhraed i chwilio am yr wyau bach. Ond erbyn y diwedd rown i wedi cael digon o fwyta wyau siocled felly fe wnaethom goginio cacennau siocled gyda Mari Malwen, sy'n byw drws nesaf. Ydych chi wedi bod yn coginio dros wyliau'r Pasg?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar hefyd oedd derbyn eich holl luniau bendigedig chi. Mi fuodd nifer ohonoch yn brysur iawn ym mis Mawrth a diolch yn fawr i Jac Rees o Gwmsychpant am liwio llun arbennig. Ond y llun a wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un lliwgar ac ardderchog Mari Rees, Maesllwyd, Cwmsychpant. Da iawn ti!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun y plant yn coginio a chofiwch ddanfôn eich lluniau nôl erbyn dydd Llun, Ebrill 25ain.

Ta ta tan toc.



Enillydd
ymis!

Mari
Rees

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Y CWMINS (82)

Ystyr yr enw yw 'tir heb ei gau sy'n eiddo i'r gymuned'. Mae'r enw wedi ei fenthycu i'r Gymraeg o'r Saesneg Canol cumin, comin a hwnnw'n perthyn yn anuniongyrchol i'r Lladin commune. Cafwyd 'cumin' yn Gymraeg a 'kymin' yn Saesneg. Yr amrywiad cwmin a gynrychiolir gan Y Cwmins yn Llambled.

Ym Mhen-arth ac yng Ngwent y ffurf Kymin sydd fwyaf amlwg ond yr un yw'r ystyr. Yn 1801, yn ystod ei daith trwy Sir Fynwy, mae'r Archddiacon William Coxe yn cyfeirio at The Kymin, ucheldir uwchben Trefynwy ac yn ei ddisgrifio fel 'tir comin heb ei gau'.

TRICHWMWL

Daeth cyfle yn ddiweddar i ystyried un o enwau diddorol plwyf Myddfai sef Trichwmwl. Rhwir sylw i'r enw yng nghyrol ddiddorol David B James, MYDDFAI: ITS LAND AND PEOPLES. Nodir yno mai 'Trichwmwl', yn amlach na heb, yw'r enw sy'n digwydd yn nogfennau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn rhestrau'r degwm (1839) 'Tricwmwd' yw enw'r fferm; a cheir yr un enw ar gae cyfagos (Rhif 1950). Dyna'r enw sy'n ymddangos ar fap cynnar yr Arolwg Ordnans. Nid yw'r enw wedi ei gynnwys ar fapiau diweddar gan mai olion yn unig a geir yno bellach.

Ceir cyfres o ffurfiau gwahanol o graffu ar ddogfennau'r cyfrifiad ar gyfer plwyf Myddfai rhwng 1841 a 1911: Trychwmwood (1841); Tricwymwd (1851); Tricwmood (1861); Trecwmwl (1871); Trecwmwl (1881); Trichwmwl (1891); Tir Cwmwl Farm (1891); Trichwmwl (1911).

Y ffurfiau cynharaf a welwyd ar yr enw yw 'Tri-chwmwd' (1744) a 'Tyrtree Cwmod' (1768). Ymddengys, felly, mai Trichwmwd oedd yr enw gwreiddiol. Efallai i'r enw newid i Trichwmwl wedi i'r ymwybyddiaeth am y cwmwd fel uned weinyddol o bwys bylu. Nid oes ffiniau cymydol yn cwrdd yn y rhan hon o Gwmwd Perfedd. Mae'r union safle, sut bynnag 260 m uwchlaw'r môr a phen y llechwedd dipyn yn uwch eto, sef 400 m uwchlaw'r môr; mae tri chwmwd Cantref Bychan sef Hirfryn, Perfedd ac Iscennen a rhagor o fewn golwg llygad craff.

I ddathlu Gŵyl Dewi eleni trefnwyd cyfres o gyflwyniadau ar wahanol agweddau ar hanes a dylanwad Dewi yn y Cwswll, canolfan addysg y gadeirlan. Yn ystod y prynhawn lansiwyd y gyfrol 'Ar Drywydd Dewi Sant' gan Gerald Morgan a chyflwyno copi i'r Esgob Wyn. Prynhawn i'w gofio, yn sicr. Mae'r gyfrol yn llwyddo i wneud yn union yr hyn a nodir ar y dudalen deitl ac mae ar gael yn Siop y Smotyn Du.

Yng nghysgod y gadeirlan ei hun, mae maes parcio sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro. Dyma'r Glyn Rhosyn sy'n gymaint rhan o hanes Dewi. Cynrychiolir enw'r lle erbyn hyn ar eiddo'r Cyngor gan yr enw gwamal 'Merrivale'. Hyd y gwn i nid oes tystiolaeth o gwbl am fodolaeth yr union ffurf 'Merrivale' ac eithrio ar y ddau beiriant casglu tâl parcio y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdany'n nhw. Oni fyddai dewis 'Glyn Rhosyn' wedi cyfoethogi dealltwriaeth o ddiwylliant y safle a'r ardal.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru:-
www.cymdeithasenuwalleoeddcymru.org

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion



Côr Merched SA Bl. 13 ac Iau - Ysgol Bro Pedr 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [D] - Ysgol Bro Pedr 1af.



Unawd Bl. 5 a 6 - Alaw Jones, Ysgol Cwrtnewydd 2il.



Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 [D] - Jemimah Norton, Ysgol Y Dderi 2il.



Unawd Bl. 2 ac Iau - Megan Morris, Ysgol Bro Pedr 2il ac Unawd Cerdd Dant 2il.



Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau - Niah Bouvet, Ysgol Bro Pedr 2il.



Ensemble Bl. 7-9 - Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Cerddorfa dan 25 oed - Ysgol Bro Pedr 1af.



Peidiwch ag ymddiried
mewn unrhyw...



...dylech ymddiried yn TrustMark

Pan fyddwch chi'n dewis crefftwr, mae TrustMark, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig ffordd hawdd i chi ddod o hyd i gwmnïau dibynadwy o safon sydd wedi'u harchwilio.
www.trustmark.org.uk/cymru

@TrustMarkUK TrustMarkUK @WG_Economy welshgovernment



10
YEARS 2006-2016



Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Pob lwc i rhain i gyd yn Fflint.....



Unawd Bl. 3 a 4 - Betrys Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi, 1af, Cyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac Iau 3ydd.



Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4 - Cerys Angharad Jones, Ysgol Bro Pedr 1af.



Unawd Llinynnol a'r Unawd Piano - Austin Thomas, Ysgol Bro Pedr 1af a Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 [D] 2il.



Deuawd Bl. 6 ac Iau - Betrys a Gruffydd Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi 1af.



Llefaru Unigol Bl. 7 - 9 - Sara Elan Jones, Ysgol Bro Pedr 1af.



Monolog Bl. 10 a dan 19 oed - Cadi Jones, Ysgol Bro Pedr 1af.



Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed - Nest Jenkins, Ysgol Bro Pedr 1af.



Cyflwyniad Digri 14 - 25 oed - Twm Ebbsworth, Ysgol Bro Pedr 1af



Parti Deusain Bl. 9 ac Iau - Aelwyd Llambled 1af.



Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl. 10 a dan 19 oed - Elen Lewis, Ysgol Bro Pedr 1af



Unawd 19-25 oed - Aled Wyn Thomas, Aelwyd Llambled 1af



Parti Merched Bl. 7 - 9 - Ysgol Bro Pedr 1af.



Ensemble Lleisiol Bl. 7 - 9 - Ysgol Bro Pedr 1af